

Y LLOFFWR



PAPUR BRO
CYLCH DINEFWR

~~~  
RHIF 333 - 80c

~~~  
EBRILL 2012

~~~  
[ylloffwr@papurbro.org](mailto:ylloffwr@papurbro.org)



## Ieuenctid y fro yn disgleirio yn yr Eisteddfodau

Aelodau Aelwyd Llyn y Fan (uchod) a Disgyblion Ysgol Tre-Gîb (isod) - mwy ar dudalen 2



**PASG HAPUS I HOLL DDARLLENWYR Y LLOFFWR**





## ~ LLWYDDIANT YN YR EISTEDDFODAU ~

### Aelwyd Llyn y Fan



*Côr 4 llais (SATB)*

### Ysgol Tre-Gib




*Parti bechgyn bl 7, 8 a 9.*



*Côr bechgyn blwyddyn 13 ac iau*

*Swyddogion  
Ty Prichard a  
oedd yn  
fuddugol*



### Eisteddfod Ysgol Gyfun Pantycelyn



*Endaf Griffiths gyda'r  
beirniad Lowri Pugh-Morgan*



*Carla Ludlow  
gyda Peter  
Beynon,  
Pennaeth yr  
Adran Saesneg*



## Llwyddiant yn Llandudno

Ar benwythnos 10 ac 11 Mawrth teithiodd nifer o aelodau C.Ff.I Sir Gâr i Llandudno i gystadlu yng Ngwledd o Adloniant Lefel Cymru. Wedi ennill y fraint o gystadlu yn sgîl eu llwyddiant ar lefel Sirol mi wnaeth C.Ff.I Cynwyl Elfed a C.Ff.I Llanymddyfri fwynhau y profiad o gystadlu yn erbyn Clybiau o bob rhan o Gymru a daethant â chlod i'w Clybiau ac i'r Sir.

Cafwyd cystadlu brwd trwy gydol y penwythnos gyda C.Ff.I Llanymddyfri yn dod yn drydydd yng nghystadleuaeth y Pantomeim Saesneg a C.Ff.I Cynwyl Elfed yn cipio'r ail safle yn y pantomeim Cymraeg-llongyfarchiadau iddynt.

Hefyd yn ystod y penwythnos bu Aled Jones o Glwb Dyffryn Cothi a Menna Williams, C.Ff.I Llanfynydd yn cystadlu yng nghystadlaethau aelod Hŷn ac Iau y flwyddyn. Llongyfarchiadau mawr i Aled Jones ar ennill teitl Aelod Hŷn C.Ff.I Cymru am 2012/13.

Mae Aled wedi bod yn aelod gweithgar o'i Glwb am nifer o flynyddoedd ac wedi manteisio ar nifer o gyfleon y mae'r mudiad wedi eu cynnig megis teithio dramor a chymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau a chystadlaethau. Mae Aled hefyd wedi cael cryn lwyddiant wrth gystadlu mewn gwahanol gystadlaethau yn enwedig siarad cyhoeddus a barnu stoc ac adloniant. Dymunir yn dda iddo yn ystod ei flwyddyn gyffrous a phrysur.



**Aled Jones**, Llandeilo, (Tŷ-llwyd, Cwrt-y-Cadno gynt) ac Aelod o Glwb Dyffryn Cothi a wnaeth dderbyn anrhydedd yn Llandudno.

## Menter Bro Dinefwr

☎ (01558) 825336

✉ [post@menterbrodinefwr.org](mailto:post@menterbrodinefwr.org)

### Rhwydweithio Cyflym

Bu Tomas Marks a Glyn Jones o'r prosiect Mentro yn cynnal digwyddiad Rhwydweithio Cyflym ar gyfer entrepreneuriaid ifanc yng Nghlwb y Quins Caerfyrddin.

Mae Mentro yn cael ei drefnu gan Fenter Bro Dinefwr ac mae'n rhan o brosiect Entrepreneuriaeth Wledig RDP Sir Gâr\*, sy'n rhoi cymorth busnes rhad ac am ddim i bobl ifanc rhwng 16 a 30 oed. Trefnwyd y digwyddiad fel cyfle i rhwydweithio ac yn gyfle i bobl fusnes y dyfodol gael cyngor gan fusnesau sefydledig.

Rhodddwyd tir munud yr un i'r entrepreneuriaid ifanc i sgwrsio gyda phob un o'r amrywiol fentoriaid busnes profiadol o gwmnïau.

Dywedodd Lynette Thomas, Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid Menter Bro Dinefwr, "Roedd y noson yn llawer mwy llwyddiannus na'r hyn yr oeddem wedi'i ragweld - roedd yr ystafell gyfan yn llawn cynnwrf ac roedd pawb a oedd yn bresennol o'r farn eu bod wedi elwa cryn dipyn o'r profiad. Roedd hefyd yn ysbrydoliaeth i weld cymaint o frwdfrydedd yn cael ei rannu gan yr entrepreneuriaid ifanc a'u mentoriaid. Mae'n wych i weld prosiect mor newydd a chyffrous yn creu effaith mor bositif yn ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin."

Am ragor o wybodaeth ynghylch Mentro a digwyddiadau pellach, cysylltwch â Tomas Marks ym Menter Bro Dinefwr ar (01558) 825336 neu e-bost [tomasmarks@menterbrodinefwr.org](mailto:tomasmarks@menterbrodinefwr.org)

### Brwydr y Bandiau

Daeth tyrfa o bobl ynghyd ar gyfer rownd rhanbarth y De Orllewin o gystadleuaeth Brwydr y Bandiau C2 Radio Cymru a Mentrau Iaith Cymru a gynhaliwyd yng Nghlwb Rygbi Llandeilo ar nos Wener, 24 Chwefror. Roedd tri band yn cystadlu sef Tymbal o Gaerfyrddin, Sgidie Glas o Geredigion a Llygredd Sŵn o Abertawe a braf yw cael dweud bod y tri band wedi mynd ymlaen i'r rownd gyn-derfynol. Y beirniad ar y noson oedd Rhys James o'r band Mattoidz a Gwilym Bowen Rhys o Bandana ac yn cyflwyno roedd un o gyflwynwyr C2 Magi Dodd.

### Cwis Chwaraeon

Cynhaliwyd cwis chwaraeon blynyddol Menter Bro Dinefwr yng Nghlwb Rygbi Llangadog ar nos Fercher 14 Mawrth. Y cwis feistr eleni oedd y dyfarnwr a'r athro Tim Hayes a chafwyd noson hwylus iawn yn ei gwmini. Daeth sawl tîm brwdfrydig ynghyd i gystadlu â'r tîm buddugol eleni oedd Clwb Criced Llanwrda. Hoffai'r Fenter ddiolch i Glwb Rygbi Llangadog am ei gefnogaeth a'i barodrwydd i gynnal y cwis eleni.

### Twrrw Teilo

Cafwyd noson wych yng nghwmni Fflur Dafydd a Sipsi Gallois yn gig mis Mawrth o gyfres gigs Twrrw Teilo a gynhaliwyd nos Wener 23 Mawrth yng Nghlwb Rygbi Llandeilo. Bu'r Fenter yn cyd-weithio gyda Clwb Gwawr Llandeilo i drefnu'r noson. Yn perfformio yn gig mis Ebrill fydd enillydd Cân i Gymru eleni, Gai Toms, a'r canwr o Ddyffryn Aman Gruff Rees. Byddwn yn cyd-weithio gydag Adran yr Urdd Llandeilo i drefnu'r noson. Dewch yn llu!

### Cysyllta â'r Gymraeg

Bu'r Fenter yn cydweithio yn ddiweddar ar gynllun cyffrous o'r enw *Cysyllta â'r Gymraeg* a phrif nod y prosiect yw cyflwyno i ddysgwyr amrywiol lefydd lle y gallant ymarfer eu Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth gyda busnesau o amgylch Llandeilo. Aeth y staff o amgylch y dref gyda holiaduron i fesur y defnydd o'r Gymraeg yn y busnesau ac ar ôl dadansoddi'r wybodaeth lluniwyd taflen *Dewch i Siarad* ar gyfer dysgwyr yn nodi ble y gallent ymarfer yr iaith.

Gweithiwyd ar y cyd ag Academi Hywel Teifi a Chanolfan Cymraeg i Oedolion De-Orllewin Cymru, Prifysgol Abertawe a lansiwyd y cynllun yng Ngwesty'r Cawdor ar nos Lun, 12 Mawrth. Os hoffech ragor o wybodaeth am y Cynllun, cysylltwch â Lynette Thomas ar (01558) 825336.





## BRECHFA



### Dathliadau

Llongyfarchiadau i John a Rhoslyn Betts, Wernant, Gwernogle a Peter a Barbara Winchester, Bryn Stores, Brechfa ar ddathlu eu Priodas Rhuddem.

Llongyfarchiadau hefyd i Dominic a Rosie Carmichael, Rhiwiau, Llanllawddog ar ddathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

### Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad â Audrey, Peter a Llinos Dyer, 20 Maes y Groes, ar golli tad, tad yng nghyfraith a thadcu annwyl sef **Mr Henry Ferguson-Thomas**, Llanwrda. Cydymdeimlir hefyd â Dr Elsbeth Grey, Llystyn Cottage (chwaer Henry) ar golli ei brawd.

## CAIO



### Cadair Gyntaf

Llongyfarchiadau i Endaf Griffiths, Pistyllgwyn ar ennill cadair eisteddfod Ysgol Pantycelyn. Dyma'r gadair gyntaf i Endaf ei hennill. Cipiodd Dlwys y Llenor Ifanc yn Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint yr hydref diwethaf. Un o'r rhai fu'n cyfarch y bardd buddugol oedd un o'i gyfoedion ers dyddiau cychwyn yr ysgol yng Nghaio, Rhidian Davies, Awelon. Endaf hefyd gipiodd y wobwr am y perfformiwr mwyaf addawol yn adran gerdd yr eisteddfod. Dal ati Endaf!

Tri o gyn ddysgyblion Ysgol Gynradd Caio a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth y gadair sef Endaf Griffiths, Pistyllgwyn (1) Carys Haf, Hen Swyddfa Post (2) a Sara Mair, Hen Swyddfa Post (3).



### Cyfarchion

Croeso i Owain Rhys, mab bach i Lowri a Gareth, Tŷcapel a brawd bach i Gethin. Hefyd croeso i Ffion Hannah, merch fach i Aloma a Dave, Maescadog.

Llongyfarchiadau i Carys Haf, Hen Swyddfa Post a Cara Ludlow, Arlwyn, y ddwy wedi eu dewis yn Gyfansoddwyr Ifanc Dyfed. Bydd eu cerddoriaeth yn cael ei chwarae gan bedwarawd llinynol proffesiynol yn Rhosygilwen diwedd mis Mawrth. Daliwch ati ferched.

## CAPEL DEWI



### Bore Coffi

Cafwyd cinio blasus yn Nhafarn yr Aradr, Rhosmaen i ddathlu Gŵyl ein nawddsant. Wrth y llyw oedd Dr Hedydd Davies. Rhoddwyd y fendith gan Cyril Treharne a'r diolchiadau gan Harvey Thomas.

## Eisteddfod Fach

Bu cystadlu brwd yn yr Eisteddfod Fach eleni yn cadw'r beirniaid Nan Lewis, Peniel a Meinir Davies, Nantgaredig yn brysur yn ogystal ag Eleri James, Nantgaredig gyda'r gwaith llaw. Diolch yn arbennig i Meinir am lenwi'r bwlch ar fyr rybudd a dymunwn wellhad buan i'w chwaer Carys.

Cyflwynwyd Tarian McCall i Efa Jones, Brechfa am ennill y mwyaf o dystysgrifau, gyda Megan Bryer, Steffan Cennydd, Delyth Davies, Mared Jones a Sioned Jones yn gydradd ail. Arweinydd y noson oedd Steffan Griffiths, Pennaeth Ysgol Gynradd Nantgaredig gyda Geraint Rees yn cyfeilio.

Fel arfer, gwahoddwyd y llywydd, Eirian Jones, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanarthne i ddweud gair yn ystod yr egwyl.

Darparwyd lluniaeth i'r swyddogion gan Helen Gibbon. Diolch i Gyngor Cymuned Llanarthne am y gefnogaeth.



*Enid McCall yn cyflwyno tarian Eisteddfod Fach Capel Dewi i Efa Jones, Brechfa. Hefyd yn y llun gwelir Geraint Rees, cyfeilydd; Steffan Griffiths, arweinydd; Eirian Jones, llywydd; Meinir Davies a Nan Lewis, beirniaid.*

## CAPEL ISAAC



### Colli cymeriad bro

Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth sydyn **Mr Ieuan Llewelyn Thomas**, Llygad yr Haul ar 26 Chwefror ar drothwy ei benlwydd yn 85 mlwydd oed. Treuliodd ran helaeth o'i fywyd yn ffermio'n raenus yn Mount, Capel Isaac tra am gynnod rhwng 1953 a 1966 bu hefyd yn cludo plant yr ardaloedd gwledig yn ei gerbyd i'r ysgol gynradd. Adwaenid ef fel bonheddwyr hynaws, addfwyn a pharchus gyda hiwmor iach. Yn ddiagon ffyddlon a gweithgar yng Nghapel Isaac ers 1977, roedd e hefyd yn aelod o Gyngor Cymuned Llangathen ers naw mlynedd. Ymddeolodd Ieuan a'i briod Medina i Lygad yr Haul yn 1999 gan barhau gyda'u hamrywiol ddiddordebau.

Daeth tyrfa gref i'r angladd dan ofal y Parch Wilbur Lloyd Roberts yn Amlosgfa Llanelli ar 6 Mawrth.

Cydymdeimlir â'r teulu cyfan yn eu colled annisgwyl.

*Hedd, Perffaith Hedd.*

### Cymanfa Fodern

Cynhelir Cymanfa Fodern yng Nghapel Isaac ar 13 Mai am 7pm. Trefnir y gymanfa ar y cyd rhwng Capeli Salem Heolgaed, Capel Isaac a Chlybiau Ffermwyr Ifanc Llandeilo a Llanfynydd. Elin Bishop fydd yr arweinydd gydag Elin Rees a'r band yn cyfeilio. Cawn hefyd gyfraniadau ar y noson gan aelodau o'r clybiau Ffermwyr Ifanc. Mynediad drwy raglen £5.





## CIL-Y-CWM



### Côr Cyswllt Cil-y-cwm

Ar nos Iau, 1 Mawrth yng Nghapel y Groes, Cil-y-cwm, cynhaliwyd noson yng nghwmni Côr Cyswllt Cil-y-cwm i ddathlu dydd Gŵyl Dewi. Brاف oedd gweld y capel yn llawn a chafwyd perfformiadau gan y côr o dan arweinyddiaeth Aled Edwards a'r cyfeilydd, Mared Tomos. Hyfryd oedd clywed plant Ysgol Gynradd Cil-y-cwm hefyd yn canu tair cân a phob un o'r disgyblion wedi gwisgo yn eu gwisg Gymreig. Arweinydd y noson oedd Lyn Richards, Maesglas, Caio a bu ef hefyd yn beirniadu'r cystadlaethau llenyddol. Cafwyd cawl a chacen i ddilyn yn y Neuadd Arms lle bu pawb yn cymdeithasu wedi'r cyngerdd. Diolch i bob un am eu cefnogaeth.



Llun: William Theophilus /  
Andy Bryce

Côr Cyswllt Cil-y-cwm yn perfformio ar y noson.

## CRUGYBAR



### Swper Cawl

I ddathlu Gŵyl Ddewi cynhaliwyd swper cawl yn y Ganolfan ar nos Sadwrn. Wedi mwynhau'r cawl, Huw Thomas, Llysothi fu'n trefnu cwis diddorol i bawb. Ar y noson cafodd pawb gyfle i weld y gwelliannau a wnaed i'r hen ysgol yn ystod yr wythnosau diwethaf.

### Y Capel

Ar brynhawn Sul, 24 Chwefror cyflwynwyd siec o £492.50 gan Ieuenctid y Capel tuag at waith Cyfeillion Ysbyty Llanymddyfri. Hanner elw'r noson Carol a Chân a drefnwyd i gofio tri chan mlynedd ers geni'r emynydd enwog o Grugybar, Dafydd Jones o Gaio oedd hwn. Cyflwynwyd hanner arall yr elw i drysorfa Capel Crugybar. Cyflwynwyd y siec ar ran y Cyfeillion gan Lyn Richards, Maesglas Cadeirydd Pwyllgor y Cyfeillion. Diolch i'r ieuenctid am eu gwaith rhagorol.



## CWM-DU



### Dydd Gŵyl Dewi

Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi yn hwyliog yn y festri yng Nghwm-du yng nghwmni Côr Meibion Dinefwr ac offerynwyr gwerin lleol. Llywiwyd y noson yn hwylus ac yn llawn asbri gan Peter Harries. Y côr, dan arweiniad John Williams a'r cyfeilydd Ben Montai, gne a agorodd y noson gyda chyflwyniad o Rachie, *In the garden* a chân o Dde'r Affrig. Clymwyd yr eitemau gyda storiâu gan Peter ac eitemau gan Claudine le Corre ac Eva ar y ffidil a'r pibau. Clywsom alawon Cymreig a Llydewig - y Pural Fesur ac alaw o Lydaw o'r enw Mynd am dro.

Roedd yn hyfryd cael croesawu'r gantores werin o Bonthenri - Ann sy'n llais cyfarwydd iawn yn y noson werin yn nhafarn Cwm-du. Fe'n swynwyd gan ei datganiad o Ferch Megan, Suo Gân a chân wreiddiol a gyfansoddwyd ganddi *Remember me and smile*. Ymunodd pawb gyda'r côr mewn datganiad o Oes gafr eto? ac Ar lan y môr.

Daeth yr amser i brofi'r cawl a'r pice ar y maen a baratowyd gan Pat Bazzard a'i theulu, a chymdeithasu trwy wrando ar Claudine ac Eva yn ein diddanu. Tynnwyd y raffl yn ystod yr egwyl a daeth y noson i ben gyda'r côr yn canu Kwm-baya, Mi glywaf dyner lais a Chalon Lân ar yr alaw o Seland Newydd.

Diolchwyd i Philip James am drefnu'r noson a chyflwynwyd y diolchiadau ychwanegol gan John Williams a Peter Harries. Cafodd pawb a oedd yn bresennol noson i'w chofio yng nghwmni'r doniau lleol a phawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at fwyniant y noson.

## CWRT HENRI



### Cyfarchion

Dymuniadau gorau am wellhad llwyr i Colin Blakeman, New Cross sydd wedi bod yn gaeth i'w gartref ers cryn amser yn dilyn anffawd a llawdriniaeth i'w benglin.

## Gwasanaeth Uchel Siryf Dyfed

Ar fore Sul, 18 Mawrth yn Eglwys y Santes Fair cynhaliwyd gwasanaeth eglwysig arbennig i nodi fod un o aelodau'r eglwys Thomas Lloyd yn Uchel Siryf Dyfed. Cafwyd oedfa draddodiadol gyda chynrychiolaeth deg o eglwysi gofalaeth Catheiniog yn bresennol. Y Parch Ganon Roger Hughes oedd yng ngofal yr oedfa ac efe wnaeth draddodi pregeth yn seiliedig ar y darlleniadau ar gyfer y pedwerydd Sul yn y Garawys. Cymerwyd rhan gan yr Uchel Siryf, ei ddirprwy Anthony Jenkins ac Alun Jones ar ran yr eglwys. Maureen Williams oedd yr organyddes.



Urddwyd y siryf **Thomas Lloyd** ym mis Ebrill llynedd yn Nhŷ Drenwydd, Dinefwr gan Esgob Tŷ-Ddewi, Wyn Evans. Daw'r uchel siryf o linach teulu Lloydiaid, Plas Cwrt Henri. Nid ef yw'r cyntaf o'r teulu i dderbyn yr anrhydedd. Yn 1632 urddwyd Rhys Lloyd yn siryf Ceredigion a bu pump o'r meibion yn y swydd rhwng 1680 a 1850.

Ganwyd Thomas Lloyd yng Nghwrt Henri a threuliodd ei blentynod rhwng Llundain a Gorllewin Cymru. Aeth i Brifysgol Caergrawnt a gweithiodd yn Llundain fel cyfreithiwr wedi hynny. Mae'n parhau'n gyfreithiwr ac fel hanesydd mae'n aelod o Cadw, mudiad sy'n gofalu am Henebion Cymru. Bu'n gadeirydd Ymddiriedolaeth Adeiladau Prydain hyd 1992 ac yn gadeirydd Ymddiriedolaeth Adeiladau o dan fygythiad hyd 2008, mudiad a olynodd Cadw.

Shelter Cymru yw'r prif elusen i elwa o'i ymdrechion i godi arian yn ystod ei flwyddyn yn siryf. Y gŵr hynaws yma hefyd yw Herodr Arbenigol Cymru. Dymunir yn dda iddo wrth iddo ddod i ddiwedd ei dymor cyffrous a phrysur.

## FELIN-GWM UCHAF



### Cawl a Chân

Eleni eto roedd Canolfan Gymdeithasol Felingwm Uchaf yn llawn ar gyfer noson cawl a chân blynyddol pwyllgor y neuadd. Yn dilyn cawl a danteithion blasus fe wnaeth y cadeirydd John James lywio cyngerdd gyda thair merch o gyffiniau Capel Isaac yn diddanu. Cafwyd awr ddiddan ac adloniant amrywiol gan Meinir Jones, Ffion Jones ac Elin Rees, y tair yn aelodau brwd o Glwb Ffermwyr Ifanc Llanfynydd. Hefyd cafwyd anerchiad bwrpasol gan westai'r noson, y Cynghorydd Sir, Mansel Charles. Braf oedd cael llongyfarch Angharad Beech, Gwynfryn, Felingwm Isaf ar ennill cadair Eisteddfod Ysgol Nantgaredig.

Diolchwyd i bawb a wnaeth gyfrannu tuag at lwyddiant y noson.



## Ar wellhad

Braf gweld fod bod Beth Taylor, Talar a Sid Davies, Hen Swyddfa Bost yn gwella'n dda yn dilyn llawdriniaethau yn ystod y gaeaf.

## FFAIR-FACH



### Mrs Nancy Thomas

Ar 8 Ionawr hunodd **Mrs Nancy Thomas** a hithau'n 92 mlwydd oed. Roedd yn un o chwech o blant a fagwyd yn Nhafarn Bach, Heol Bethlehem. Cofiw'n amdani hi a'i diweddar briod Syd yn ffermio a magu eu teulu yn Cilwaunydd. Ymddeolodd y ddau i Dderwen Deg, Ffair-fach.

Daeth tyrfa fawr ynghyd i'r angladd cyhoeddus yng nghapel Ebenezer, Llandeilo gyda'r gwasanaeth dan ofal y Parch. Mary Davies ac yn cael ei chynorthwyo gan y Parch John Young a'r Parch Iwan Vaughan Evans â Marilyn Morgan wrth yr organ. Cydymdeimlir gydag Ena, Bethan a'r teulu yn eu colled.

### Cymdeithas y Tabernacl

Elenirydym wedi cael cyfarfodydd gwych a diddorol. Ddechrau Ionawr cawsom hanes bywyd Ifor Griffiths a fu yn Heddwys gyda Heddlu Gogledd Cymru cyn iddo ymddeol ac ymgartrefu yn Heol Myrddin.

Ar 23 Ionawr pleser oedd cael croesawu David Williams, Llandeilo sef cyn brifathro Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe. Bangladesh oedd ei bwnc a'r cysylltiad rhwng Bryn Tawe a'r wlad honno.

Ar 6 Chwefror aeth Anthony Birdwood o Lanwrda â ni ar daith, hanes tren y canolbarth o'r cychwyn cyntaf hyd at heddiw.

Yna ar 20 Chwefor meddygyniaethau naturiol gawsom gan Einir Jones, Rhydaman - diddorol iawn.

I ddiweddu rhaglen y tymor, cinio yn yr Hydd Gwyn i ddathlu gŵyl ein nawddsant yng nghwmni merch ifanc ddisglair ym myd y campau, sef Non Evans, yn enedigol o'r Fforest, ond yn byw yn awr ym Mhentyrch. Da hefyd oedd cael cwmni ein gweinidog y Parch Iwan a Barbara Evans. A dyna ni, y tymor wedi dod i ben tan yr Hydref. Diolch yn fawr i'r swyddogion – Ena Williams, Ysgrifennydd, Janice James, Trysorydd, a Beti Davies am gadeirio.

### Cwrdd Chwiorydd Byd Eang.

Prynhawn Gwener, 2 Mawrth, tro y Tabernacl oedd croesawu Eglwysi'r cylch eleni. Merched Maleisia oedd dan sylw. Daeth nifer dda ynghyd â phob eglwys yn cymryd rhan. Cawsom anerchiad pwrpasol gan Einir Jones. Braf hefyd oedd cael cwmni Rhian Mann a'i disgyblion o Ysgol Ffair-fach i ymuno â ni a chanu dwy gân addas iawn. Diolch i bawb.

### Cydymdeimlo

Yn ystod mis Ionawr a Chwefror mae Ffair-fach wedi colli tair chwaer. Y cyntaf ohonynt oedd **Mrs Nancy Thomas**, Derwendeg, aelod ffyddlon Capel Bethel, Pontbrenaraeth a ffrind cyson i'r Tabernacl.

Ar 14 Ionawr hunodd **Mrs Eileen Thomas**, gynt o'r Tre-gib Arms, mam Wyn, Haydn, Alan, Delyth a Dilwyn. Yna ar 28 Chwefror bu farw **Miss Muriel Francis**, 24, Heol Cennen yn dilyn gwaeledd hir. Rydym yn meddwl am eu teuluoedd yn eu colled, a choffa da amdanynt i gyd.

### Cyfarchion

Dymuniadau da am wellhad llwyr a buan i Doreen Rees, Railway Terrace, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Llanymddyfri. Brysiwch adre'n fuan Doreen.

### Cyngor Bro

Cynhaliwyd cyfarfod misol Cyngor Bro Dyffryn Cennen, ac ymhlith y materion a drafodwyd oedd cyflwr adeilad *Old Bridge Farm*, Ffairfach a pharc chwarae Ffair-fach. Codwyd materion i sylw'r Cynghorydd Sir a Swyddog yr Heddlu a thrafodwyd ceisiadau cynllunio.

Mae trefniadau wedi dechrau hefyd i ddathlu jiwibili diemwnt y Frenhines gyda nifer o fudiadau sydd o fewn dalgylch y Cyngor wedi cyfarfod yn ddiweddar i drafod y dathliadau.

### Cylch i'r ifanc

Cynhelir Cylch Ti a Fi Mudiad Meithrin yn Ysgol Ffair-fach, 1pm - 3pm ar brynhawn Llun yng nghaban y Mudiad Meithrin.





## GWYNFE



## Lansio Cynllun

Mae swyddogion Undeb Amaethwyr Cymru o Sir Gaerfyrddin wedi bod mewn cyswllt clos â'r heddlu yn dilyn achosion o ddwyn defaid yn ardal Gwynfe. Cytunodd cynrychiolydd y Sir ar bwyllgor Tir Comin Undeb Amaethwyr Cymru Hugh Davies a'i wraig Mary, Ddafadfa Uchaf, Gwynfe i gynorthwyo trwy uno i drefnu Cynllun Gwyllo Ffermydd Gwledig yn yr ardal.



*Hugh a Mary Davies gyda Swyddog Cynnal Cymuned yr Heddlu Hannah Jones, Heddwes Howie Davies, Sarsiant Matthew Howells, S.C.C. yr Heddlu Steve Griffiths a Craig Roderick yn y cyfarfod lansio yn Neuadd Gwynfe.*

## LLANARTHNE



## Marwolaeth

Yn sydyn ar 18 Chwefror bu farw **Mrs Eira James**, Aweldeg, Llanarthne a hithau wedi dathlu ei phenblwydd yn 80 mlwydd oed wythnos yn gynharach. Fe'i magwyd yn Glasgoed Isaf gan dreulio rhan helaeth o'i bywyd priodasol gyda'i phriod Alun yn Gorwel a Hamdden cyn symud i'r pentref rai misoedd yn ôl.

Roedd hi'n wraig gymwynasgar, ddibynadwy a gofalus iawn o'i theulu, a charedig tuag at bawb.

Cymeriad tawel, bychan o gorff. Gwraig ddewr, yn enwedig yn y ffordd y bu iddi am flynyddoedd ddelio â'i hafiechyd. Er ei bod yn flinedig yn gorfforol ar brydiau, oherwydd y triniaethau roedd hi yn ei gael, bydde Eira yn ymdrechu i roi o'i gorau bob amser. Yn ffyddlon i Gapel y Dolau, nid yn unig ar y Sul, ond cyfarfodydd yr wythnos hefyd – roedd yn wraig â ffydd ac fe wasanaethodd fel blaenor yno ers 1980. Ei diddordebau mwyaf oedd gwinio, gwau, coginio a nofio. Roedd yn ffyddlon ac yn gefnogol i holl weithgareddau cymdeithasol yr ardal, gwirfoddoli gyda'r WRVS, Merched y Wawr, Plaid Cymru, Cymraes i'r carn. Mi fydd yna golled enfawr ar ôl Eira yn y Capel a'r gymdogaeth a wasanaethodd hi mor ffyddlon trwy gydol ei hoes.

*Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth.*

Roedd yn wraig annwyl a ffyddlon i Alun, mam dyner Ioan, Gethin a Llinos, mam-gu gariadus Andrew, Paul, Llŷr, Manon a Mareid, a mam-ying-nghyfraith hoffus Dawn a Mefus.

Daeth tyrfa fawr i'r angladd yn Amlosgfa Llanelli ar 24 Chwefror gyda'r gwasanaeth dan ofal ei gweinidog y Parch Ifan Roberts.



## LLANDEILO



## Capel Newydd

Cynhaliwyd Oedfa Gymun arbennig yng nghwmni'r plant a'r bobl ifanc ar 4 Mawrth i ddatlu Gŵyl Ddewi. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan rai o'r bobl ifanc a chafwyd perfformiad pwrpasol gan y plant. Gweinyddwyd y Cymun gan y Parch Edward Griffiths a braf oedd croesawu cynulleidfa o ryw 120 i'r Oedfa, yn cynnwys tua 35 o blant. Cafwyd cyfle yn dilyn yr oedfa i fynd i'r Ffestri i gymdeithasu a chael paned a phice ar y maen.

Yn ddiweddarach yn y mis, ar Sul y Mamau, cynhaliwyd y Cyrddau Blynnyddol gyda'r Parch Gareth Morgan Jones yn pregethu. Croesawyd cyfeillion o'r Tabernacl Ffair-fach, Salem Heolgaed a Chapel Isaac atom. Yn dilyn sefydlu'r traddodiad y llynedd, cafodd y plant gyfle i roi tusw o flodau i'w mamau yn yr oedfa. Diolch i Catherine McLoughlin am baratoi'r blodau ar eu cyfer.



Yn dilyn diddordeb diweddar gan unigolion i ymaelodi â'r Capel Newydd, byddwn yn derbyn aelodau newydd yn ystod y mis neu ddau nesaf. Os oes diddordeb gyda chi, neu os gwyddoch am unrhyw un arall â diddordeb i ymaelodi, cysylltwch ag un o'r swyddogion.

Cynhelir Oedfa Gymun ar fore Sul y Pasg, 8 Ebrill am 10.30am dan ofal y Parch Edward Griffiths. Croeso cynnes i bawb.

## Mrs Dilys Williams

Trist cofnodi marw **Mrs Dilys Williams**, Rhosdeg, Rhosmaen ar 29 Chwefror. Gweddwr diweddar Daniel a mam Myra, Bleddyn, Meurig, Jean ac Alwyn, chwaer, mamgu a henfamgu annwyl. Roedd yn aelod ffyddlon yng Nghapel Newydd, Llandeilo lle bu'r gwasanaeth angladdol dan ofal y Parch Edward Griffiths yn cael ei gynorthwyo gan y Parch Ddr Rheinallt Davies. Gosodwyd ei gweddillion i orffwys ym Mynwent Elim, Rhosmaen. Bu bywyd Dilys yn un o wasanaeth a gofal ffyddlon am ei theulu, bu hefyd yn gweithio yng Ngwesty'r Plough am flynyddoedd. Roedd y dyrfa fawr a ddaeth i'r angladd yn dystiolaeth o gydymdeimlad cywir pawb â'r teulu agos gan gynnwys ei chwaer Dilwen, yr unig un o saith o blant Maerdy Uchaf gynt sydd bellach ar ôl.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Sara Evans a Ben Rees, Llandeilo ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Madi ar 8 Mawrth. Mae'r teulu bach wedi ymgartrefu yn Heol Latimer.

Dymuniadau gorau i'r tri.



## Clwb Cinio Cymraeg Llandeilo a'r cylch

Pan gyhoeddodd y cadeirydd Elfryn Daniels bod y siaradwraig wadd yn methu dod i'r cinio a'i fod ef yn mynd i gymryd ei lle yr oeddem fel aelodau yn edrych ymlaen yn ddisgwylgar, ac ni chawsom ein siomi.

Fe gymerodd yr is-gadeirydd, Eifion Bowen at y gadair ac fe lwyodd y cyfarfod gyda hyder a chywirdeb.

Cawsom noson i'w chofio, yn wir yn ôl ymateb nifer fawr o'r hanner cant aelod oedd yn bresennol, dyma un o'r siaradwyr gorau iddynt glywed yn y Clwb Cinio yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Teitl ei anerchiad oedd Atgofion bore oes ardal Brechfa. Hanesion oedd Elfryn wedi eu clywed a'u cofnodi, gan ei dadcu a'i dad oeddynt. Cafodd Elfryn ei eni a'i fagu ar fferm Ffynnon Gollen, fferm o ryw bedwar ugain cyfer. Fferm mewn lle cyn arbennig iawn yn ardal Felingwm Isaf, yn edrych lawr ar Ddyffryn Cothi a Dyffryn Tywi. Golygfeydd bendigedig i godi'r ysbryd meddai Elfryn. A dyna wnaeth yr anerchiad, codi ysbryd y gwrandawyr astud, gyda hanner awr o hanes nifer fawr o gymeriadau hynod ddiddorol a hanesion difyr a hwylus.

Fe wnaed y diolchiadau gan Mansel Charles, ac fe eglurodd yntau pam mor werthfawr oedd cyfraniad Elfryn nid yn unig i ardal Felingwm ond i gylch ehangach. Yn swyddog gweithgar a gwerthfawr o'r R.A.B.I., Neuadd Goffa a Sioe Amaethyddol Pontarothi, Capel Sittim Felingwm a Chymdeithas Henoed Cylch Llanegwad.

Cyflwynwyd rhodd yn anrheg i Elfryn fel arwydd o werthfawrogiad o'i anerchiad.



Llun: Cliff Price,  
Llanfynydd

*Mansel Charles, Elfryn Daniels ac Eifion Bowen*

## Côr Sainteilo

Mae'r tymor wedi gwibio heibio a'r côr wedi cwrdd yn wythnosol i baratoi ar gyfer ein perfformiadau. Dechreuodd y tymor nôl ym mis Ionawr gyda chinio blynyddol y côr yn y Plough, Rhosmaen pan gafwyd noson hwylus iawn, bwyd bendigedig ac adloniant gan rai o'r aelodau.



Yn dilyn llwyddiant yr arbrawf y llynedd, cynhaliwyd noson cawl a cherdd a chân eleni eto yn yr Hydd Gwyn, Llandeilo ar 16 Mawrth. Roedd y tocynnau i gyd wedi eu gwerthu a chafwyd noson i'w chofio dan arweiniad medrus John Gwynne. Bu'r côr yn canu sawl cân a chafwyd perfformiadau unigol gan blant rhai o'r aelodau. Dangosodd sawl aelod o'r côr eu doniau hefyd wrth lefaru a chanu a chafwyd deuawd offerynnol ar y recorder a'r ffidl yn ogystal. Codwyd dros £300 i Ganolfan Plant Sir Gâr a diolch i staff yr Hydd Gwyn am y bwyd, eu croeso a'u lletygarwch.

## LLANEGWAD



### Marwolaeth

Yn dilyn blynyddoedd o anhwylder a llesgedd iechyd bu farw **Mrs Sarah Evelyn Evans**, Min-y-coed, Pontarothi ar 6 Mawrth a hithau'n 97 mlwydd oed. Gweddw ydoedd i'r diweddar Elvet, mam annwyl Elwyn ac Enid, mam-gu hoffus Einir ac Emyr a mam-yng-nghyfraith barchus Joyce. Treuliodd hi a'i diweddar wr rhan helaeth o'u bywydau yn ffermio yn Coedsaithbren, cyn ymddeol i Heol Alltyferin. Bu'r angladd yn Eglwys y plwyf, Llanegwad lle'r oedd y ddau wedi bod yn swyddogion ffyddlon ac hynod weithgar.

Cydymdeimlir gyda'r teulu yn eu colled.

## LLANFRIDWEN



### Aderyn prin

Daeth gwylwyr adar yn eu cannoedd i lannau Llyn Bolgwn yn ddiweddar i weld aderyn prin a oedd wedi glanio yno ar ôl colli ei ffordd. Bydd gŵydd addfain y cyrs yn treulio'r rhan fwyaf o'i hamser yn Sibera, ond gall deithio mor bell ag Awstria pan fydd y tywydd yn wael. Yn ôl y naturiaethwr, Dr Pennant Elias, dyma'r tro cyntaf erioed i'r aderyn gael ei weld yng ngwledydd Prydain.

### Coffáu marchog?

Treuliodd y cyfarwyddwr ffilmiau enwog, D.W. Allen-Ford, ddwy noson yng Ngwesty Cranogwen yn ystod mis Mawrth, a mawr fu'r dyfalu ynglŷn â phwrpas ei ymweliad. Yn ôl un ffynhonnell ddibynadwy, mae'n ystyried gwneud ffilm yn ymwneud â Syr Thomas à Watkin, marchog o'r pentref a laddwyd ym Mrwydr Agincourt.

### Cwrw newydd

Croeso i gwrw newydd o ficro-fragdy y Fridwen Arms. Roedd peint cyntaf cwrw Gwladys Goch yn barod erbyn cinio Dydd Gŵyl Dewi a gynhaliwyd dan nawdd y Gymdeithas Lenyddol. Roedd Gwladys yn gymeriad adnabyddus yn y pentref yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Wrth lansio'r cwrw, dywedodd y tafarnwr, Gregory Smith ei fod yn gobeithio y byddai ei Wladys ef mor boblogaidd ymhlith dynion y pentref ag ydoedd y Wladys wreiddiol.

## LLANFYNYDD



### Noson o adloniant

Dan drefniadaeth Clwb Ffermwyr Ifanc Llanfynydd cynhaliwyd noson o adloniant gan yr aelodau i'r cyhoedd yn Neuadd Pantglas ar nos Fercher, 7 Mawrth. Cymerodd y cadeirydd Alun Thomas at y rhannau arweiniol gyda John Gwynne yn llywio'r gyngerdd. Cafwyd noson ddifyr ac adloniant amrywiol gan yr aelodau gan gynnwys y pantomeim a berfformiwyd ar lefel sirol. Cafwyd anerchiad byr gan westai'r noson, Hefin Price, Penlan a diolchwyd i bawb a wnaeth gyfrannu tuag at lwyddiant y noson.





## Cyfarchion

Dymuniadau gorau am adferiad llwyr i William John Morgan, Brynawel a Philip Smith, Glanrwyth sydd ar wellhad yn dilyn anffawd a chyfnodau mewn ysbyty. Cofir hefyd am nifer eraill o drigolion yr ardal sydd wedi bod yn wael eu hiechyd yn ystod misoedd y gaeaf. Boed iddynt hwythau hefyd gael adferiad iechyd. Llongyfarchiadau gwresog i Lyn a Sheila Thomas, Brynheulog ar ddathlu eu priodas aur ar 24 Mawrth.

## LLANGADOG



### Eisteddfod y Capeli

Daeth cynulleidfau gryno o wrandawyr a chefnogwyr brwd i Capel Providence, ar nos Wener, 24 Chwefror, pan gynhaliwyd Eisteddfod Gŵyl Ddewi flynyddol eglwys i'r Annibynwyr yng nghylch Llangadog. Eisteddfod ar gyfer y plant yn bennaf oedd hon eleni eto. Yn ôl yr arfer, gwelwyd talentau amrywiol y plant a'r bobl ifanc wrth iddynt gystadlu'n frwd ac eiddgar am rai oriau. Y beirniaid eleni oedd:- Eiry Jenkins, Castell Rhingyll (Adrodd a Llenyddiaeth), Dr Hywel Lewis, Castell Rhingyll, (Cerddoriaeth) a Marilyn ap Steffan, Llangadog (Arlunio a Llawysgrifen). Dewiswyd John Lewis Ll.B., Penarth, fel Cadeirydd y noson a chafwyd ganddo anerchiad diddorol a geiriau addas am adeg ei fagwraeth yng Nghapel Providence ynghyd â rhodd ariannol hael tuag at gronfa'r Eisteddfod. Roedd bod yn bresennol yn yr Eisteddfod yn dwyn atgofion iddo o'r adeg pan gychwynnodd y Parch T Alwyn Williams yr eisteddfod a chymhellodd y pwyllgor i ddal ati i'w chynnal i'r dyfodol. Cyflwynwyd y noson a'r Cadeirydd gan Haulwen Booth, Cadeirydd Pwyllgor yr Eisteddfod. Enillydd y darian i blant o dan 12 oed oedd Fflur Richards ac enillydd y darian i blant dros 12 oed oedd Elen Fflur Davies ac fe'u cyflwynwyd iddynt ar ddiwedd y noson gan y beirniaid Adrodd a Cherddoriaeth. Dyma enwau gweddill yr enillwyr:-

*Unawd dan 5 oed* - Guto Price (1), Gruff Jones, Calan Thomas, Siôn Jones, Erin Jones ac Ilan Dafydd (cydradd ail).

*Adrodd dan 5 oed* - Guto Price (1) Calan Thomas (2) Siôn Jones (3)

*Unawd 6 a 7 oed* - Iolo Dafydd (1) Iestyn Thomas, Sara Price a Cian Thomas (cydradd ail).

*Adrodd 6 a 7 oed* - Iolo Dafydd (1) Cian Thomas (2) Sara Price a Iestyn Thomas (cydradd drydydd)

*Unawd 8, 9 a 10 oed* - Trystan Davies (1) Fflur Richards (2) Guto Dafydd (3).

*Adrodd 8, 9 a 10 oed* - Fflur Richards (1) Catrin Price (2) Guto Dafydd (3)

*Unawd 11, 12 a 13 oed* - Elen Fflur Davies (1) Manon Roberts (2) Steffan Thomas (3).

*Adrodd 11, 12 a 13 oed* - Elen Fflur Davies (1) Gwenllian Jenkins a Manon Roberts (cydradd ail) Steffan Thomas (3)

*Adrodd 14+ oed* - Aaron Hughes (1) Jack Davies (2) Ifan Williams (3)

*Offeryn Cerdd dan 12 oed* - Fflur Richards (1) Guto Dafydd (2) Osian Richards (3).

*Offeryn Cerdd dros 12 oed* - Carys Davies.

*Emyn Dôn ar yr Organ dan 12 oed* - Lois Williams.

*Cydradd dan 12 oed* - Parti Trystan (1) Parti Gwenllian (2).

*Cydradd dros 12 oed* - Parti Jack (1) Parti Elen Fflur (2).

*Darllen Emyr ar y pryd o dan 8 oed* - Cian Thomas (1) Iolo Dafydd (2) Sara Price (3).

*Darllen Emyr ar y pryd o 8 i 12 oed* - Guto Dafydd (1) Fflur Richards (2) Catrin Price (3).

*Darllen Emyr ar y pryd dros 12 oed* - Ifan Williams (1) Elen Fflur Davies a Carys Davies (cydradd ail) Manon Roberts (3).

*Parti Unsain* - Cyfio Lois (1f) Parti Ifan a Pharti Guto (cydradd ail).

*Parti'r Emyr Cyfoes* - Parti Lois (1) Parti Guto (2) Parti Ifan (3).

*Ateb 6 chwestiwn dan 12 oed* - Gwenllian Jenkins.

*Ateb 6 chwestiwn dros 12 oed* - Ifan Williams.

*Llenyddiaeth Oed Cynradd* - Fflur Richards (1) Trystan Davies (2) Ioan Hughes (3).

*Llenyddiaeth Oed Uwchradd* - Elen Fflur Davies (1) Aaron Hughes (2) *Arlunio a Lliwio o dan 7 oed* - Cian Thomas (1) Sara Price (2) Erin Jones (3).

*Arlunio a Lliwio 7+ oed i 12 oed* - Ioan Hughes (1) Catrin Price (2) Iolo Dafydd a Guto Dafydd (cydradd drydydd).

*Arlunio a Lliwio dros 12 oed* - Jack Davies (1) Carys Davies ac Aaron Hughes (cydradd ail) Elen Fflur Davies a Steffan Thomas (cydradd drydydd).

*Llawysgrifen o dan 7 oed* - Sara Price (1) Cian Thomas (ail) Iestyn Thomas, Gruff Jones a Siôn Jones (cydradd drydydd)

*Llawysgrifen 7+ oed i 12 oed* - Gwenllian Jenkins (1) Trystan Davies (2) Fflur Richards (3).

*Llawysgrifen dros 12 oed* - Elen Fflur Davies (1) Carys Davies (2) Jack Davies ac Aaron Hughes (cydradd drydydd).

*Stori â Sain* - Aaron Hughes ac Ifan Williams (1) Gwenllian Jenkins ac Elen Fflur Davies (2) Carys Davies a Jack Davies (3). Cystadlaethau'r Oedolion:-

*Limrig* - Eurwen Bowen

*Brawddeg gyda phob gair yn dechrau â'r llythyren "T"* - Parch K M Lintern.

*Brawddeg o'r gair "LLANGADOG"* - Eurwen Bowen.

Arweiniwyd gweithgareddau'r noson gan Haulwen Booth, Indeg Williams, Carys Dyer a Rachel Hughes a'r gyfeilyddes oedd Sara Morgan. Dosbarthwyd y gwobrau ariannol gan Nancy Davies a Bethan Morgan a chadwyd sgôr y marciau gan Alun Williams a Siân Thomas. Cyflwynwyd y diolchiadau i bawb gan gynnwys cadeirydd y noson, y rhai a fu'n paratoi'r plant yn yr Ysgol Sul a'r Gobeithlu, y rhai fu'n gysylltiedig â threfniadau'r noson, gwagedd caredig Capel Providence am baratoi'r lluniaeth, y beirniaid ac aelodau'r pwyllgor gan Haulwen Booth. Swyddogion Pwyllgor yr Eisteddfod yw'r canlynol:- Cadeirydd - Haulwen Booth, Trysorydd - Nancy Davies, Ysgrifennydd - D Wyn Williams.



Enillydd y Darian oed Cynradd Fflur Richards, ac enillydd y Darian oed Uwchradd, Elen Fflur Davies, a'r Beirniaid: Cerdd Dr. Hywel Lewis PhD, a Llên ac Adrodd Eiry Jenkins. Hefyd Llywydd y nos sef John Lewis Ll.B Penarth, a Mr a Mrs Euros Jones Evans, Ystradowen, darpar weinidog newydd rhan-amser yr Ofalaeth.

### Ymdddeoliad prifathrawes

Wedi nifer o flynyddoedd o wasanaeth i'r ysgol a'r gymuned mae Mrs Sian Evans bellach wedi ymddeol fel pennae Ysgol Gynradd Llangadog. Mae'r ysgol yn ddyledus iawn iddi am yr holl waith a'i gofal ac yn dymuno pob iechyd a mwynhad iddi yn ei hymdddeoliad. Mi fydd noson yn cael ei threfnu ar ei chyfer yn ystod Tymor yr Haf er mwyn gallu dangos ein gwerthfawrogiad yn llawn. Rydym wedi dechrau casgliad ar ei chyfer ac os hoffech gyfrannu ato mae modd i chi wneud hynny trwy ddanfôn eich cyfraniad at yr ysgol cyn diwedd Ebrill.





## Clwb Ffermwyr Ifanc Llangadog

Mae wedi bod yn gyfnod prysur iawn i'r clwb dros y misoedd wedi'r Nadolig.

Cynhaliwyd Noson Chwaraeon y Clwb ar 20 Ionawr yng Nghlwb Rygbi Llandeilo. Daeth nifer o dimau i gystadlu a chafwyd noson ddifyr. Y tîm buddugol oedd tîm o Llangadog.

Bu'n gyfnod prysur ar ddechrau mis Chwefror wrth i'r Clwb baratoi i gystadlu yng Nghystadleuaeth Pantomeim Ffederasiwn Sir Gaerfyrddin. Cafodd y Clwb gryn lwyddiant wrth dderbyn y drydedd wobwr yn y gystadleuaeth. Enillodd Angharad Rees y wobwr am yr actores orau o dan 26 oed a chafodd nifer fawr o aelodau eu henwi fel yr actorion i'w canmol. Llongyfarchiadau i bob un a fu'n rhan o'r cynhyrchiad llwyddiannus.

Cafodd y Clwb brofiad arbennig ychydig wythnosau'n ddiweddarach wrth fynd ar wahoddiad Clwb Ffermwyr Ifanc Llanddewi Brefi i berfformio eu pantomeim yn Theatr Felinfach. Roedd yn brofiad gwerth chweil i'r holl aelodau gael perfformio mewn theatr go iawn a chafodd pawb noson wrth eu bodd. Braf oedd cymdeithasu gydag aelodau Llanddewi Brefi wedi'r perfformiad hefyd.

Ar 16 Mawrth, cynhaliodd y Clwb Eisteddfod Ddwl yn Neuadd Llangadog gan wahodd Clybiau Dyffryn Cothi a Llanddewi Brefi i ymuno yn y noson. Y beirniaid oedd Meirion Hughes, Llwynmenny, Indeg Williams, Bryngwyn a Helen Thomas, Blaencwm. Cafwyd noson hwyliog gyda llawer o ddwli cystadleuol! Enillwyd y noson oedd Clwb Llanddewi Brefi.

Mae'r Clwb yn prysur baratoi ar gyfer nifer o ddigwyddiadau ar hyn o bryd a braf yw gweld nifer o aelodau iau y clwb yn llwyddiannus mewn amryw o feysydd o fewn y Clwb a thu allan.

Bydd cyngerdd y Clwb yn cael ei chynnal ar nos Wener, 20 Ebrill yn Neuadd Gymunedol Llangadog am 7.30pm. Llywydd y noson fydd Lynne Griffin (Bryer gynt), Llangors. Mynediad yn £5. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â 07951 893627.

## LLANGATHEN




### Cyfarchion

Dymuniadau am wellhad llwyr a buan i Dilys Thomas, Felin Cilsane sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn gynharach eleni. Ar hyn o bryd mae'n gwella'n raddol tra'n aros gyda'i merch Derwena yng Nghaerdydd.

Dymuna Dilys hithau ddiolch i bawb sy' wedi bod mor ffein ati drwy gydol cyfnod ei thostrwydd ac wedi anfon cyfarchion, cardiau ac anrhegion.

## LLANWRDA



### Colli cymeriad amlwg

Yn dilyn cyfnod byr o salwch bu farw **Mr Henry Ferguson-Thomas**, Erwlun, Llanwrda ar 28 Chwefror yn 83 mlwydd oed.

Gweddw ydoedd i'r diweddar Joan a thad annwyl Malcolm, Audrey a David, tadcu a hen dadcu parchus a brawd Dr Elsbeth Grey.

Fe'i ganwyd yn Tynyfron, Llanwenog, ond fe ddaeth i Ficerdy

Caio pan yn naw mis oed. Yn fab i'r diweddar Barchedig Daniel Thomas ac Isabella Ferguson derbyniodd ei addysg yng Nghaio, Llanbedd ac yng Ngholeg Pibwrlwyd. Bu'n chwaraewr rygbi dawnus i glybiau Caerfyrddin, Llandeilo a Llanelli ac yn

gefnogwr brwdfrydig trwy gydol ei oes. Yn dilyn cyfnod o Wasanaeth Cenedlaethol yn yr Awyrlu treuliodd ei yrfa fel cemeigydd amaethyddol i Gwmni Boots. Gweithiodd yn adran *Farms and Gardens* yng Nghaerfyrddin, Abertawe, Bury St. Edmunds ac yna Henffordd.

Ymddeolodd yn 1983 gan symud i Lanwrda ac ymdoddodd yn syth i fywyd cymunedol. Gwasanaethodd fel clerc cydwybodol a hyddysg ar Gyngor Cymuned Llanwrda a bu'n gadeirydd ar *Dyfed Family History Society*. Roedd e'n arbenigwr ar hanes teuluol, hanes ystadau lleol a'r Eglwys yng Nghymru. Roedd ffyddlondeb Henry a'i gyfraniad fel darlennydd ac organydd i Eglwys Capel Dewi yn amhrisiadwy. Ef hefyd oedd ysgrifennydd y Cyngor Eglwysig Lleol. Yn arbenigwr ar gadw gwenyn bu'n llywydd *Welsh Beekeepers* ac yn stiward gwybodus yn yr adran fêl yn Sioe Frenhinol Cymru, a dyfarnwyd ei fêl y gorau yn y wlad yn 2011. Yn arddwr o fri roedd ganddo arbenigedd mewn coed ffrwythau. Byddai'n annerch mudiadau a sefydliadau ar y pynciau hyn yn rheolaidd.

Daeth tyrfa luosog iawn i'r angladd ar brynawn Gwener 9 Mawrth yn Eglwys Sant Cynwil, Caio a gosodwyd ei weddillion i orwedd ym mynwent yr eglwys.

Cydymdeimlir gyda'r teulu a'r cysylltiadau eraill yn eu colled.

### Cylch i'r ifanc

Cynhelir Cylch Ti a Fi Mudiad Meithrin yn Neuadd Gynradd Llanwrda ar fore dydd Mawrth, 9.30am – 11am.

## LLANYMDDYFRI



### Clwb Gwawr Llanymddyfri

Fe fu aelodau'r Clwb yn Neuadd Myddfai yn gwneud sebon o dan arweiniad amryddawn Lesley Griffith. Gan nad oedd modd i bawb fod wrthi yn gwneud sebon ar yr un pryd, roedd rhai ohonom yn cael hwyl yn chwarae badminton. Mae Neuadd Gymunedol Myddfai yn le hwylus lle mae yna lu o weithgareddau diddorol yn cael eu cynnal yn ystod y dydd ac ar fin nos. Swper i bawb wedyn wedi ei baratoi gan aelodau'r Clwb sy'n byw ym mhlwyf Myddfai. Bendigedig! Noson arall i'w chofio.

### Aelwyd Llyn y Fan

Mae Aelwyd Llyn y Fan ar daith unwaith eto - eleni Caernarfon fydd y cyrchfan!

Yn y blynyddoedd a fu mae'n wir dweud mae prin oedd y paratoi cyn yr Eisteddfod Sir ond wedi llwyddiant llynedd mae'r ysfa i baratoi yn drylwyr wedi cydio yn yr aelodau a da oedd y perfformiadau a mawr yw ein gobeithion.

Cafwyd cystadleuwyr eleni yn y Monolog, yr Ymgom, yr unawd a'r unawd sioe gerdd, alaw werin, cerdd dant, pedair munud o gomedi, parti llefaru, côr merched a'r côr cymysg gyda'r mwyafrif yn llwyddianus yn eu hymngais i gyrraedd Caernarfon.

Bydd ein taith ychydig bach mwy hwylus eleni diolch i ymdrechion Sian Elen o Fenter Bro Dinefwr. Diolch hefyd i Sian Elen am drefnu sgript i'r chwarter awr o adloniant sydd heb ddechrau ymarfer eto (os oes rhywun â diddordeb cysylltwch â Dai Dyer 07977913637)

Cystadleuaeth ar wahan ag eto'n ymddangos yn yr Eisteddfod yw'r gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus ac eleni cafwyd dau dîm o Ysgol Pantycelyn, un tim o Tre-gîb a dau dim o aelodau hŷn yr Aelwyd yn cymryd rhan, ac ymfflamychol (a dweud y lleiaf!) oedd peth o'r gwrthdaro yn enwedig rhwng Telor a Ffion yn y tîm hŷn. Gobeithio bydd llwyddiant i rai o'r timau hyn a diolch yn arbennig i'r tîm a gafodd ei ffurfio pum munud cyn y gystadleuaeth ond diolch i gadeirydd cadarn fe gafwyd perfformiad caboladwy. Diolch i Dei Tomos am feirniadu a Ruth Morris am drefnu'r gystadleuaeth.





## Cylch Cinio Cymraeg Llanymddyfri

Cafwyd araith feistrolgar a gafaelgar gan yr ymgyrchydd iaith, Ffred Ffransis, yn ystod cyfarfod misol y Cylch yng Ngwesty Pen y Brenin, Llanymddyfri nos Iau, 23 Chwefror. Bu'r siaradwr, sydd hefyd yn marchnata cynnyrch crefftwyr o Ogledd a Gorllewin Affrica trwy gwmni Cadwyn, yn sôn am wir ystyr masnach deg.

Dywedodd fod pobl yn gofyn iddo a oes plant yn cynhyrchu'r nwyddau y bydd yn eu gwerthu. "Mae gofyn cwestiwn o'r fath yng nghyd-destun y gymdeithas holiadaidd sy'n bodoli yn y manau lle caiff y nwyddau hyn eu cynhyrchu yn bradychu anwybodaeth ac yn rhoi golwg Ewropeaidd ar y byd," meddai. Cytunai fod rhai plant, mewn ffatrioedd yn Ne Ddwyrain Asia fel arfer, yn cael eu hecsploio ac yn gweithio 12 awr y dydd am y peth nesaf i ddim.

"Wrth gwrs mae hynny'n beth gwael," meddai, "ond mewn manau fel Marrakesh mae cynhyrchu crefftau yn rhan o addysg plentyn. Mae'r addysg honno'n cynnwys addysg academiaidd fel rydym ni yn deall addysg – astudio Mathemateg, rhywfaint o Ffrangeg, Arabeg glasurol ac yn y blaen. Mae rhan arall o'r addysg honno'n golygu astudio'r Koran, a rhan arall wedyn yw dysgu'r crefftau traddodiadol. Mae addysg yn brofiad cyflawn mewn bywyd."

"Yn gyffredinol, dyna'r hyn rydyn ni'n ei golli yng Nghymru y dyddiau hyn. Falle taw rhan o'r anturiaeth fawr o'n blaenau ni yw adfer ac ailennill rhai o'r pethau rydym wedi eu colli. Mae unrhyw beth sy'n aros yn ei unfan yn debyg i amgueddfa. Rhaid cadw ein gwerthoedd, ond hefyd rhaid ailddehongli'r gwerthoedd hynny o'r newydd ym mhob cenhedlaeth."

"O ran ein haddysg, rydym wedi gwneud mwy a mwy o arbenigo a llai o ddealltwriaeth gyflawn. Rhowch fi ar ynys fach gyda rhywun o Marrakesh, ac fe welech chi pwy sy'n gallu goroesi orau. Byddaf i'n gallu gwneud un neu ddau o bethau arbenigol, ond bydd y person o Marrakesh yn deall bywyd yn ei gyfanrwydd."

"Mae pobl yn edrych ar addysg mewn persbectif cul ofnadwy. Mae swyddogion addysg yn gweld ysgolion fel ffatrioedd i gynhyrchu plant â hyn a hyn o gymwysterau am y gost leiaf. Unwaith y bydd cymuned leol yn colli ei hysgol, bydd plant yn cael adeilad gwell efallai, ond bydd yr ysgol yn colli cysylltiad â'r gymuned ac yn colli ei chefnogaeth."

"Tra bo bywyd yn anturiaeth, byddwn yn symud ymlaen a thra byddwn yn symud ymlaen, bydd Cymru yn dal i fyw."

Diolchwyd i'r siaradwr gwadd gan Dr Denley Owen, a gyflwynodd iddo ddarlun o Gastell Dinefwr wedi'i baentio gan Lon Owen.



Wynford Harries (cadeirydd), Ffred Ffransis (siaradwr gwadd), Dr Denley Owen.

## Merched y Wawr Bro Pantycelyn

Cynhelir cyfarfod nesa'r gangen ar Nos Fercher, 11 Ebrill yn Neuadd Dolau Bran am 7pm. Doreen Sisto, Abergorlech fydd y wraig wadda'i thestun fydd Gwaith Llaw. Edrychwn ymlaen i'w chroesawu ac i wrando arni yn siarad am ei gwaith a dangos enghreifftiau o'i gwaith cywain. Cysylltwch â Bethan Richards ar (01550) 721635 neu Evelyn Davies ar (01550) 720368 am ragor o wybodaeth.

## MYDDFAI



### Digwyddiadau

Ar nos Fercher, 14 Chwefror cyfarfu rhanbarth Sefydliad y Merched yn y neuadd. Gwelwyd eisiau Nesta Davies, a fu'n ysgrifenyddes Sefydliad y Merched, Myddfai am flynyddoedd. Anfonwyd dymuniadau gorau am wellhad buan iddi yn dilyn llawdriniaeth ddiweddar.

Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Aled Samuel, Llandeilo ar nos Sadwrn, 25 Chwefror yn neuadd y gymuned. Mwynhawyd amrywiol adloniant a lluniaeth ysgafn yn ystod y nos.

Daeth grŵp o ddeugain o falwnwyr, rhai o Swydd Buckingham a rhai o America am ginio blasus yn y neuadd ar 29 Chwefror. Gan ei fod yn brynhawn mor braf cafodd yr ymwelwyr Helfa Drysor yn y cylch ac yna treuliwyd amser pleserus yn y ganolfan a'r siop.

Aeth nifer fawr o wirfoddolwyr y ganolfan i Theatr Brycheiniog ar nos Wener, 24 Chwefror.

Cafwyd noson o fwynhau a llawer o hwyl yng nghwmni Mike Doyle. Ar y ffordd i Aberhonddu, arhoswyd am bryd o fwyd yn y *White House*, Pont Senni.

Daeth Côr Siambr Coleg Llanymddyfri i gynnal cyngerdd yn yr eglwys ar nos Wener, 16 Mawrth. Croesawyd pawb a diolchwyd i'r bobl ifanc am noson arbennig gan y ficer Ian Aveson.

### Cyfarchion

Llongyfarchiadau i Catrin a Mathew, Tŷncoed ar enedigaeth merch fach. Croeso i Erin Mai wyres fach i Pat a Bert James, Aberaeron a Lewis a Bethan Lewis, Llwynmeredydd.

Deallir bod Louise Campbell, Llety'r Bugail wedi derbyn swydd newydd yng Nghaergrawnt. Dymunir yn dda iddi yn ei gwaith fel Syrffwraig Siartredig.

### Digwyddiadau wythnosol

Dalier sylw ar y digwyddiadau wythnosol canlynol yn y neuadd:- Dosbarthiadau Ioga nos Fawrth 6pm – 7.30 pm., Sumba dydd Mercher 10am – 11am a Trim & Tone ar nos Fercher 7pm – 8pm.

## NANTGAREDIG



### Lawnsiad ffilm

Croesawyd pobl i Ysgol Gymunedol Nantgaredig ar nos Fawrth, 13 Mawrth ar gyfer lawnsiad ffilm **Pryd yn y byd?** Ffilm gynta'r ysgol a hynny ynglyn â Stori Cymru. Roedd disgyblion blwyddyn 6 wedi bod yn hynod brysur ers misoedd yn gweithio ar y ffilm ac fe gafwyd noson o fwynhad Yn union fel lawnsio ffilmiau mawr yn Llundain ac Efrog Newydd roedd y carped coch ar lawr, y papuratsis a'u camerau ymhob man, a diod a lluniaeth aruchel i bawb wrth gyrraedd a chymdeithasu.

Dechreuodd y prosiect nôl yn yr Hydref pan gafodd y disgyblion gyfle i arbrofi gyda'r camera a'r meic, gwranddo ar siaradwyr yn sôn am hanes Cymru, ymweld â lleoliadau hanesyddol, dysgu technegau sgriptio. Yna cytuno ar rôl pob disgybl er mwyn cynhyrchu'r ffilm orffenedig. Y disgyblion wnaeth bopeth o eiriau cynta'r sgript, yr actio a'r ffilmio a'r golygu terfynol. Ni fyddai'r prosiect wedi bod yn llwyddiant heb weledigaeth, brwdfrydedd a gwaith Lleucu Meinir. Diolch diffuant hefyd iddi am ei gwaith ac i Mr Davies, Miss Davies a Miss Evans am eu cefnogaeth drwy gydol y prosiect.

Roedd y cyfan yn brofiad amhrisiadwy i'r holl disgyblion. Gallwch chi ddarllenwyr weld y ffilm drwy glicio ar wefan yr ysgol.



## Cymdeithas y Dyffrynnoedd

Mae'r gymdeithas yn un gapellog ac yn falch o arddel eu Cymreictod, er mai prin, fel ym mhob cymdeithas o'r math yma yw'r ieuencid.

Daeth deugain o drigolion y fro ynghyd i dafarn y Rheilffordd yn y pentref, noswyl Gŵyl Dewi a brwd fu'r cymdeithasu uwchben y cawl a'r danteithion. Yn ôl yr arfer, cafwyd siaradwr gwadd i hybu'r Gymraeg ar Wyl Dewi arall. Gorllewinwr a Chymro cadarn, Parch John Gwilym Jones, sydd yn awr yn byw ym Mheniel, a gafodd yr her. Er iddo dreulio cyfnod hir ym Mangor, esboniodd mai chwithig oedd teithi'r iaith i ddeheuwr ar y cychwyn ac aeth ati i restru amrywiadau rhwng iaith dau begwn y wlad gan siarsio'r gwrandawyr, nid yn unig i arfer geirfa'r ardal, ond hefyd i ofalu bod y genhedlaeth bresennol yn etifeddion pendant o'r cyfoeth ieithyddol hwnnw. Llywyddwyd gan Lloyd Jones.

## Cymru'n ennill eto

Steffan Wyn James, Heol yr Orsaf, Nantgaredig a fu'n rhan o dîm dan 21ain Cymru a drechodd y Saeson ym Mryste, yng nghystadleuaeth flynyddol bowls mat byr y ddwy wlad. Da iawn wir!

## Cleifion

Dymuniadau gorau am adferiad iechyd llwyr i Myfi Jones, Danyrallt sydd wedi derbyn llawdriniaeth i'w phen-glin ac i Nansi Davies, Nantsaer a dreuliodd gyfnod yn Ysbyty Glangwili yn dilyn anffawd yn ei chartref.

Gyda thristwch mawr y clywyd fod Carys Davies, Cwm sy'n athrawes yn Ysgol Gynradd Brechfa wedi derbyn cryn niwed mewn damwain car ar ddechrau Mawrth – mae'n dda deall ei bod yn gwella'n dda.

## Dyweddiad

Cyhoeddir dyweddiad Carys Davies, Mynachdy a Ken Owens, aelod o garfan rygbi Cymru. Llongyfarchiadau a dymuniadau da i'r ddau.



## PONTARGOTHI



## Siôn a Siân

Cystadleuaeth Siôn a Siân oedd yr adloniant mewn noson ddifyr a drefnwyd gan Bwyllgor Merched Sioe Amaethyddol Pontargothi a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa ar 24 Chwefror dan gadeiryddiaeth Carys Davies. Y cyflwynydd oedd Derfel Harries, Peniel a'r pedwar pâr wnaeth gystadlu oedd Clive a Megan Jones, Beili glas; Elfryn a Beti Daniels, Gorwydd, Tony a Carol Jones, Maesymeillion a Dylan a Louise Jones, Eisteddfa. Yn dilyn gornest gyffrous ac agos Clive a Megan wnaeth ennill. Darparwyd bwyd ar ffurf taten bôb a chyri.

## Family Fortunes

Roedd y Neuadd Goffa'n llawn ar gyfer oriau o fwynhau a chymdeithasu ar nos Wener, 2 Mawrth dan drefniant y Clwb Ffermwyr Ifainc. Daeth nifer o dimau i gystadlu mewn cystadleuaeth *Family Fortunes* dan ofal yr holwr Dylan Jones, Eisteddfa. Ar ddiwedd y noson tîm C.Ff.I. Sir Gâr ddaeth i'r brîg. Heini Daniels fu'n llywyddu gan sicrhau hwylusdod y noson. Ar hanner amser cafodd pawb swper pizza a punch.

## Chwaeroliaeth Siloam

I ddathlu Gŵyl Ddewi ac i orffen tymor y gaeaf cyfarfu aelodau'r Chwaeroliaeth a'u ffrindiau yn Nhafarn Y Cottage ger Pentrefelin. Roedd pryd blasus o gawl wedi ei baratoi ar ein cyfer a diolch i Brian ac Ainsleigh Jones am y wledd a'r croeso. Llywyddwyd gan Kitty Raymond, Nantymab Isaf ac offrymwyd gras gan Elfryn Daniels, Gorwydd. Wedi'r gwledda cafwyd anerchiad gan y wraig wadd Jean Voyle Williams, Llanddarog yn sôn am hiwmor y Cymry. Cysylltwyd y cyfan trwy ein hatgoffa bod Dewi Sant wedi ein cymell i wneud y pethau bychain ac hefyd bod y Beibl yn dweud Llawenhewch, ac fel Cristion bod yna le bob amser i lawenydd yr Efengyl.

## Cwis



Tîm Siloam, Pontargothi (Owen Cray, Steffan May, Sioned May a Sioned Raymond) a fu'n cystadlu yn y Cwis Beiblaidd (oed cynradd) yn ddiweddar. Fe wnaeth y tîm yn arbennig o dda a bu bron iddynt gyrraedd rownd derfynol y sir.

## PUMSAINT



## C.Ff.I. Dyffryn Cothi

Llongyfarchiadau i holl aelodau'r Clwb ar gyngerdd ardderchog eleni eto. Roedd perfformiadau pob un o'r cyfranwyr yn yr hanner cyntaf yn odidog ac yn dangos y môr o dalent sydd yn yr ardal. Arweiniwyd y noson yn ddeheuig gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, Bethan a Dyfan. Llywydd y noson oedd un o gyn-aelodau'r Clwb, Rhonwen Thomas, Pantygwin. Cyfeiriodd at yr amser difyr a'r profiadau gwerthfawr a gafodd tra yn aelod yma. Rhoddwyd yr ail hanner yn llwyr i ni gael mwynhau perfformiad o 'Jiwbili yn jibiders'. Roedd y sgript yn ardderchog, yn llawn hiwmor ffres. Anodd cael geiriau i fynegi dawn y perfformwyr ifanc hyn. Gwych! Pob un yn gwneud ei waith yn rhagorol. Llongyfarchiadau a diolch i bawb fu'n gyfrifol am y cynhyrchiad arbennig hwn.

Llongyfarchiadau i Aled Jones, Tŷllwyd a ddewiswyd yn Ffermwr Ifanc y Flwyddyn dros Gymru am y flwyddyn nesaf. Dymunwn i ti bob llwyddiant a mwynhad yn y sialens newydd hon.

Mae disgwyl ymlaen yn awr am Ddydd Gwaith Maes y Sir sydd i'w gynnal ar ffermydd Maesllanwrthwl a Llandre.

## Ffermio

Bu'n hyfryd dros y misoedd diwethaf i gael ciplowg ar nifer o ffermwyr o'r ardal ar raglenni teledu yn ymwneud â ffermio. Pob rhaglen yn dangos amaethu yn ein bro ar ei orau.

## Merched y Wawr

Swper da a siaradwr difyr yw dymuniad Merched y Wawr Pumsaint pob Gŵyl Ddewi a dyna a gafwyd yng Ngwesty'r Castle Green, Llanbed. Wedi mwynhau'r wledd cyflwynodd y llywydd, Eleri Davies y wraig wadd ar y noson sef Janet Evans, un o'r gweithwyr mwyaf diwyd dros y Gymraeg yn nhref Llanbed. Clywsom am lu o atgofion cynnar a phrofiadau difyr a ddaeth i'w rhan trwy'r blynnyddoedd. Noson hyfryd i ddathlu gŵyl ein nawddsant.





## Pwyllgor y Neuadd

Mae'r nosweithiau ffilmiau yn parhau yn llwyddiant. Bydd y ffilmiau nesaf i'w gweld ar nos Fercher, 28 Mawrth 7.30pm, prynhawn 4 Ebrill (plant) 2pm, yna nos Wener, 27 Ebrill 7pm. Gweler yr hysbysebion lleol am y ffilmiau a ddangosir.

Derbyniwyd grant o £1,500 gan y Cyngor Chwaraeon i brynu offer bowllo mat byr i'r Neuadd. Gwahoddwn bawb sydd â diddordeb mewn ffurfio clwb bowllo byr i ddod i gysylltiad â'r Ysgrifennydd, Eiry Griffiths (01558) 685634.

## Arddangosfa Goginio

Ar 16 Chwefror daeth y cigydd Richard Jones i ddangos sut mae torri oen ar gyfer y rhewgell. Cafwyd arddangosfa arbennig o ddiddorol. Ar 12 Ebrill am 2.30pm, daw Doreen Martin i arddangos dulliau coginio ac i roi ambell gyngor ar gyfer cyflwyno cynnyrch wrth gystadlu. Croeso cynnes i bawb.

## Cyfarchion

Da gweld bod Llŷr Jones, Henllan gartre wedi treulio cyfnod yn yr Ysbyty yng Nghaerdydd. Dymunir iddo wellhad buan a llwyr.

Dymunir penblwydd hapus iawn i Bevan Williams, Forge Cottage sy'n cyrraedd ei bedwarugain oed ar 30 Mawrth.

Croeso cynnes i berchnogion newydd yr hen Swyddfa'r Post, Pumsaint sef Daniel ac Enfys. Hyfryd gweld Cymry Cymraeg yn symud i'r ardal. Gobeithio byddant yn hapus iawn yn ein plith.

## Cydymdeimlad

Estynwn ein cydymdeimlad âg Ifor a Jean Jones, Frondeg ar golli eu chwaer yng nghyfraith Mrs Dilys Williams.

## RHANDIR-MWYN



### Dafydd Dafis

(1924-2012)

Ar ôl cystudd hir, bu farw **Mr David Davies**, Tŷ'r Ysgol, Rhandir-mwyn, yn Ysbyty Llanymddyfri ddydd Llun 12 Mawrth. Bu'r angladd yn Eglwys Barnabas Sant, Rhandir-mwyn, ddydd Llun 19 Mawrth pan ddaeth tyrfa luosog ynghyd i roi teyrnged i ŵr diymhongar a fu'n weithgar mewn sawl maes yn lleol a chenedlaethol. Yn 1978, gyda chymorth ei wraig, Joan, sefydlodd Gymdeithas Edward Llwyd. Bu hefyd yn gadeirydd ac uwch-olygydd *Y Lloffwr*. Cydymdeimlir â'i ferched, Rhiannon, Siân a Catrin ac â'u teuluoedd hwythau. Cyhoeddir teyrnged lawn yn rhifyn nesaf *Y Lloffwr*.



## TALYLLYCHAU



### Capel Esgairnant

Nos Wener, 2 Mawrth cynhaliwyd oedfa weddi fyd-eang y chwirydd dan nawdd cymdeithas chwirydd Llansawel yng nghapel Esgairnant. 'Boed i gyfiawnder lwyddo' oedd y thema a baratowyd gan chwirydd Cristnogol Malaysia a chafwyd cyfraniad gan y chwirydd a leisiodd brofiadau merched Malaysia sy'n dioddef anghyfiawnder.

Cafwyd anerchiad ysbrydoledig gan Helen Mathews a diolch iddi am ei neges. Diolch i bawb am eu cyfraniad i'r oedfa ac i Mary Williams, yr organydd a Jean Davies am y blodau i harddu'r capel.

### Plannu Coed

I nodi Jiwbilí Diemwnt y Frenhines plannwyd coed cynhenid yng nghae cymuned Talyllychau yng nghwmni aelodau Rotari Llandeilo ar ddiwedd Chwefror.

## Ysgol Gynradd Talyllychau

Cafwyd noson o gawl a chwis yn Ysgol Talyllychau dan drefniant y Gymdeithas Rhieni ac athrawon. Nigel a Sarah Walters oedd wedi paratoi i cwis, ac yr ydym yn ddiolchgar tu hwnt eleni eto am eu gwaith caled iawn. Enillwyr y cwis oedd John a Nancy Wallford, Stephanie Day a John Rees.



Enillwyr cwis yr ifanc oedd Rosa, Radha, Malati ag Arianne.



Diolch i Dana Webster a Katie Davies am baratoi i cwis iddynt. Diolch i bawb am eu cefnogaeth eleni eto, ac yn enwedig i John Rees llywydd y noson am ei eiriau caredig a'i rhodd hael.



## Gŵyl y Gwanwyn yn Ffarmers

Cynhelir Gŵyl y Gwanwyn yn Ffarmers ar 26 Mai eleni i ddathlu bywyd cymunedol yr ardal leol, ac fe fydd amrywiaeth arbennig o weithgareddau a digwyddiadau ar eich cyfer. Bydd yna arddangosfeydd ac arddangosiadau o grefftau a sgiliau cefn gwlad, gweithgareddau i'r plant, bydd Band Arian Rhydaman, Dawnsyr Penrhyd a 'Jac y Do' yn ymuno â ni. Felly, rhowch nodyn yn eich dyddiadau nawr yn barod - ceir manylion pellach yn y rhifyn nesaf o'r Lloffwr. Mae'r cyfan yn bosibl trwy i ni dderbyn nawdd ariannol ar gyfer y digwyddiad. Derbyniwyd nawdd o £1,445.52 drwy gynllun Dathlu Diwylliant sy'n rhan o brosiect Canolbwyntiau Arloesol a gyllidir trwy Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.



## ~ DIGWYDDIADUR 2012 ~

### EBRILL

- 3,4 Gŵyl Hwyl Y Pasg yng Nghanolfan Yr Ysgolion Pentywyn. Trefnir dau ddiwrnod cyffrous ar gyfer plant / ieuenctid sir Gaerfyrddin gan Fenter Ieuenctid Cristnogol. Dydd Mawrth, 3 Ebrill (plant bl. 4-6); Dydd Mercher, 4 Ebrill (pobl ifanc bl. 7-11). Am fanylion pellach cysyllter â Nigel Davies ar (01994) 230049 neu [mic@uwclub.net](mailto:mic@uwclub.net)
- 6,7 Eisteddfod Gadeiriol Llangadog a'r Cylch yn Neuadd Gymdeithasol Llangadog.
- 7 Cnapan - Gŵyl Gerdd yn Croeslan, Ffostrasol, 8pm tan 3am. Newshan, Fushanti, Dafydd Iwan, Sgidie Glas a DJ Bry. £10 cyn 11pm, mwy wedi hynny. Pabell enfawr, bar gwyhych a system sain arbennig.
- 9 Taith tractorau Gŵyl y Banc er budd Plant Sir Gâr. Gadael Cross Roads, Llanllwni am 10.30am. Manylion pellach: Tom Lewis (01559) 384279.
- 9 Cyngerdd dathlu 70 mlynedd C.Ff.I. Llandeilo yn y Neuadd Ddinesig am 7.30pm. Arweinydd: Nigel Owens. Artistiaid heb eu cadarnhau.
- 11 Gyrfa chwist yn Neuadd Abergorlech am 7.30pm. Galwr: Doreen Evans, Spitre.
- 12 Arddangosfa goginio gan Doreen Martin yn Neuadd Pumsaint am 2.30pm. Croeso i bawb.
- 15 Côr Meibion De Cymru yn croesawu pobl i alw heibio yn Neuadd Ddinesig Llandeilo Fawr rhwng 12.30pm a 4pm i ymuno yn Y Gân, ymarfer un o gorau mwyaf blaengar Cymru.
- 18 Noson Bingo yng Nghaffi Mart Caerfyrddin am 7.30pm. Trefnwyr: Pwyllgor R.A.B.I. Caerfyrddin.
- 19 Cylch Cinio Cymraeg Llanymddyfri yng Ngwesty Pen y Brenin am 7.30pm. Y siaradwr fydd y Dr Denley Owen a cheir rhagflas o'i lyfr ar hanes yr Aelod Seneddol blaengar a dylanwadol, Walter Powell, Maes Gwyn, Llanboidy (1819-1889).
- 20 Noson Goffi yn Neuadd Pumsaint. Trefnir gan Gymdeithas y Chwiorydd. Stondinau amrywiol. Elw i'w gyflwyno at waith Clefyd y Siwgrwr. 7pm.
- 20 Cyngerdd blynyddol C.Ff.I. Llangadog yn Neuadd Gymunedol Llangadog am 7.30pm.
- 21 Cyngerdd gan Gôr Cwm-ann a'r Cylch ynghyd ag Aled Edwards, Eleri Owen Edwards, Kees Huysmans a pharti bechgyn Dyffryn Cothi yn Neuadd Brofana, Ffarmers am 7.30pm. Arweinydd: Lyn Richards. Elw tuag at Ambiwylans Awyr ac Ymchwil y Cancr.
- 26 Clwb Cinio Cymraeg Llandeilo a'r Cylch yn Yr Hydd Gwyn, Llandeilo am 7.45pm.
- 27 Cyngerdd Mawreddog yng Nghapel Heol Dŵr, Caerfyrddin am 7pm. Tocyn: £7.50. Cyswllt: (01267) 232554. Artistiaid: Trystan Llŷr Griffiths, Côr Seingar a Disgyblion Ysgol y Dderwen.
- 27 Twrw Teilo yng Nghlwb Rygbi Llandeilo am 8pm. Gai Toms a Gruff Rees.

### MAI

- 3 Etholiadau'r Cyngor Sir a'r Cynghorau Cymuned. 7am-10pm.
- 5 Rali C.Ff.I. Sir Gâr yn Nantyci, Caerfyrddin.
- 7 Ffair Fai yn Neuadd yr Eglwys Brechfa. 2pm – 5pm. Amrywiol stondinau a ras hwyaid.

- 7 Gŵyl Fai Pumsaint. Pêl droed, sioe gynnyrch a chreffft, mabolgampau, carnifal, coets a helfa drysor. Manylion pellach gan Eiry Griffiths (01558) 685634.
- 7 Eisteddfod Gadeiriol Maenclochog.
- 11 Ras Hwyl Trap am 11am. Manylion: (01558) 823213/823265.
- 12 Arwerthiant planhigion blynyddol Brechfa yn Neuadd yr Eglwys am 10am. Trefnir gan Gymdeithas Rhieni a Ffrindiau Ysgol Gynradd Brechfa.
- 13 Cymanfa Fodern yng Nghapel Capel Isaac am 7pm.
- 16 Noson Bingo yng Nghaffi Mart Caerfyrddin am 7.30pm. Trefnwyr: Pwyllgor R.A.B.I. Caerfyrddin.
- 17 Cylch Cinio Cymraeg Llanymddyfri yng Ngwesty Pen y Brenin am 7.30pm. Y siaradwr gwadd fydd Ned Thomas, awdur Llyfr y Flwyddyn, 'Bydoedd'.
- 19 Ffair blanhigion Capel Dewi.
- 23,24 Thomas Didymus gan Nan Lewis, Cerddoriaeth: Meinir Lloyd, yn Theatr y Lyric, Caerfyrddin. Perfformir y ddrama gerdd gan Gwmni Broydd Tywi.
- 25 Oedfa o Fawl i ddathlu daucanmlwyddiant Capel Hermon, Manordeilo am 6.30pm. Rhoddir anerchiad gan y Parch Andrew Lenny. Bydd lluniaeth i ddilyn yn Neuadd Cwmifor. Croeso cynnes.
- 25 Twrw Teilo yng Nghlwb Rygbi Llandeilo am 8pm. Gwibdaith Hen Fran a Gareth Phillips.
- 26 Sioe Amaethyddol Pontargothi.
- 26 Gŵyl y Gwanwyn 2012 yn Ffarmers.
- 26 Cynhelir cyngerdd gyda Chôr Bois y Castell, Côr Meibion Llangwm a Chôr Ysgol Gymraeg Teilo Sant yn y Capel Newydd, Llandeilo am 7.30pm. Manylion pellach a thocynnau ar gael drwy ffonio Nia Clwyd ar (01558) 824010 neu 07970 791662



Oes gennych chi sioe, cyngerdd neu ddigwyddiad arbennig ar y gweill?

Mae **Tîm Talent** yn dychwelyd i S4C ac yn barod i helpu!

Yn y gyfres gynta' fe aeth y cyflwynydd Ifan Jones Evans a'r Tîm Talent – arbenigwyr o'r byd perfformio a thu hwnt – draw i ysgolion a chlybiau ym mhob cwr o'r wlad. A'r nod? Ychwanegu sglein i sioeau blynyddol a chyngherddau o bob lliw a llun drwy rannu arbenigedd gyda pherfformwyr ifanc a thalentog gan sicrhau profiad bythgofiadwy i bawb fu'n cymryd rhan!

Yn helpu i drawsnewid y sioeau ysgol yma roedd rhai o wynebau mwyaf cyfarwydd a charismatig y byd perfformio, – i gyd yn dysgu technegau newydd a rhannu tips gyda'r criw ifanc - ac yn codi'r safon!

Wedi'r floedd am help aeth Ifan a'r Tîm Talent ati i adeiladu setiau, trefnu coreograffi ar gyfer y dawnsfeydd, darparu hyfforddiant llais a hyd yn oed creu gwisgoedd arbennig.

Dyma gyfle i roi eich ysgol neu eich clwb chi ar y map ac i arddangos eich doniau i'r genedl.

Felly os ydych chi'n paratoi ar gyfer sioe o unrhyw fath ac eisiau help llaw gan rai o sêr mwyaf Cymru, cysylltwch â [gruff@rondomedia.co.uk](mailto:gruff@rondomedia.co.uk) neu ffoniwch 02920 223456.





## ~ SWYDDOGION Y LLOFFWR ~

**Cadeirydd**

Gwenda Rees

Tŷ Nant

42 Parc Pencrug

Llandeilo SA19 6RZ

☎ (01558) 823546

**Uwch Olygydd**

J. Mansel Charles

Sarn Gelli, Llanegwad

Nantgaredig

Caerfyrddin SA32 7NL

☎ (01558) 668823

☎ (07970) 031888

✉ [ylloffwr@papurbro.org](mailto:ylloffwr@papurbro.org)✉ [manselcharles@btinternet.com](mailto:manselcharles@btinternet.com) Handel Jones (Agrestis)**Trysorydd**

Owain Siôn Gruffydd

☎ (01558) 825336

**Swyddog Hysbysebion**

Wyn Williams

☎ (01550) 777834

**Swyddog Tanysgrifio**

Peter Harries

☎ (01558) 823075

**Argraffu**

Lewis Argraffwyr, Caerfyrddin

☎ (01267) 233510

**Golygydd y mis****Ebrill 2012**

J. Mansel Charles

**Cyfranwyr rheolaidd***Rysait o'r Gegin*

Doreen Martin

*Y Gorlan Grefyddol*

Nigel Davies

*Doctor Doctor*

Gwenda Rees

*Llecyn Llên*

T.M.Thomas

*Tudalen y Plant*

Daniel Thomas

*Croesair***Ffotograffwyr**

John Davies

☎ (01269) 850497

William Theophilus

☎ (01550) 720425

**Prawffddarlenn**

Len Richards

Elin Bishop

**Teipio a Chysodi**

Menter Bro Dinefwr


☎ (01558) 825336

**Cofnodydd Cyfarfod Blynnyddol**

Rhian Morgan

## ~ CROESAIR ~

gan Agrestis

**Ar Draws**

1 Gall fod yn un boced neu'n un fara (5)

4 Gwisg y meirw (4)

7 "Pererin — mewn anial dir ..." - Pantycelyn (3)

8 Dychrynlyd (7)

9 Bydd hwn yn denu pysgodyn i gael ei ddal (5)

11 Yr un euraidd yw'r unig un sy'n byw'n wyllt ym Mhrydain (4)

12 Duroc, Landrace a Tamworth (3)

13 Y blew sy'n tyfu ar yr ên (4)

16 Awn i hon i wyllo ffilm (6)

18 Cawn laeth o un y fuwch (6)

20 Anifail mewn cawg a frawychwyd (4)

21 3 x 4 - 9 (3)

22 Coethi (4)

27 tân/mân; pair/gair (5)

28 Math o gystadleuydd mewn eisteddfod (7)

29 Bod goruwchddynol (3)

30 Hebreadd (4)

31 Casnewydd neu Abertawe (5)

**I Lawr**

1 Tref â chastell yn y Gogledd (5)

2 Croen anifail wedi'i drin (4)

3 Cadno (6)

4,5 Cyfrol gan Caradog Prichard (4,4,3)

5 Gweler 4

6 Yr amser yr awn i Ferwyn, yn ôl y gân (4)

10 Diddorol (5)

14 Yn y lle hwn (3)

15 Teclyn ar gyfer codi pridd (3)

16 Symud i fyny ac i lawr (5)

17 Tolstoy neu Manon Rhys (7)

19 Merêd, Cled a Robin, er enghraifft (6)

23 Ymddygiad ffurfiol (5)

24 Cyn —'r Gwaed' — Islwyn Ffowc Elis (4)

25 Lluch (4)

26 Aderyn mewn siambr annifyr (4)

Cystadleuaeth agored - cynigir gwobr y mis hwn eto.  
Atebion at yr Uwch Olygydd cyn **18 Ebrill 2012**.

ENW:.....

CYFEIRIAD:.....

FFÔN:.....

**ENILLYDD CROESAIR MAWRTH:****Ethel Fletcher**, Feren-las, Heol Abergorlech, Caerfyrddin.**ATEBION Ar Draws** 1 Cranc 4 Copi 7 Acw 8 Dwyrain 9 Telyn  
11 Agos 12 Arch 13 Sali 16 Annwyd 18 Pentwr 20 Cist 21 Dŵr  
22 Pant 27 Morlo 28 Wystrys 29 Eog 30 lthel 31 Lagŵn  
**I Lawr** 1 Cwyno 2 Aman 3 Caneri 4 Cwta 5 Palmant 6 Edna  
10 Neidr 14 Dyn 15 Hen 16 Alcam 17 Nasareth 19 Cwrwgl  
23 Aeron 24 Tusw 25 Moel 26 Ysig**Cydnabyddir cefnogaeth**Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government****BWRDD YR IAITH**  
**GYMRAEG • WELSH**  
**LANGUAGE BOARD**[www.bwrdd-yr-iaith.org.uk](http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)**DYDDIAD CAU - RHIFYN MAI**Rhaid i erthyglau gyrraedd yr Uwch Olygydd erbyn 16 Ebrill  
a'r newyddion bro erbyn 18 Ebrill. Fe fydd rhifyn nesaf yn  
gyrraedd y siopau erbyn 30 Ebrill.**RHAID I'R CYFRANIADAU FOD YN GYMRAEG**

Croesewir cyfraniadau ar e-bost os yw hynny'n bosibl

[ylloffwr@papurbro.org](mailto:ylloffwr@papurbro.org)Nid yw'r Lloffwr o reidrwydd yn cytuno â'r  
farn a adlewyrchir ym mhob un o erthyglau'r papur



## ~ HYSBYSEBION ~

**SPAR** 

*Canolfan Loteri*  
*Hurio DVD's*  
*Bwydydd*

Mr & Mrs Patel  
Spar Llandeilo  
56 Heol Newydd  
Llandeilo  
SA19 6DF  
(01558) 823592

*Gwasanaeth  
Parcel*  
*Sioep drwyddedig*  
*PayPoint*

Amserau agor: 7am - 10.30pm  
(Pob un diwrnod o'r flwyddyn)

**DEWI ROBERTS**  
**Cigydd Teuluol**

*CIG EIDION CYMRAEG O SAFON*  
*GWASANAETH ARCHBUTRWR YR POST*  
*CIGOEDD ORGANIG*

18 TERAS TYWI, FFAIR-FACH,  
LLANDEILO, SA19 6ST  
☎ (01558) 822566



**JONES TELEVISION**

**Gwerthu, Rhentu a Gwasanaeth Domestig**  
☎ Nantgaredig (01267) 290372 / (01267) 290573  
*Eich busnes annibynnol lleol lle mae gofal cwsmer yn cael ei warantu - dosbarthu am ddim (hyd at 30 milltir)*

**Teledu, Fideo, Peiriannau Golchi a Sychu**  
**Systemau Hi-fi, Oergelloedd a Rhewgelloedd**  
Gosod am ddim i bwyntiau sy'n bodoli eisoes  
HOTPOINT - PHILIPS - SIEMENS - BOSCH  
JVC - HOOVER - CANNON - DIMPLEX

**Igam Ogam**  
**Anrhegion Di-ri**  
yn arbenigo mewn nwyddau Cymraeg personol

Cardiau  
Brodwaith  
'bunting'  
Crysau-t unigryw  
bagiau personol  
crochenwaith  
'hoodies'

103 Stryd Rhosmaen,  
Llandeilo,  
Sir Gaerfyrddin,  
SA19 6HA,  
Ffon 01558 822698  
www.igamogamgifts.co.uk



**HAYDN ADAMS**  
**PEINTIWR A PHAPURWR**

10 Heol y Frenhines,  
Llanymddyfri,  
Sir Gâr

☎ 01550 721754 / 07776036642




**EIFION ROBERTS**  
**PLYMWR PROFIADOL**

Arbenigwr mewn gwres canolog

☎ **(01558) 685007**

**AQUAFIX WATER & ELECTRICS LTD**

**ARBENIGWYR MEWN SYSTEMAU  
DŴR GLÂN A BRWNT**

*Ffoniwch  
Gareth  
neu Jean* ☎ **01269 841 800 / 07814 027 045**

Uned 6, Stad Ddiwydiannol Gorslas,  
Gorslas, Sir Gâr

**W.D. Lewis**  
*a'i Fab*

Cangen Pumsaint, Broneb Stores  
Pumsaint, Llanwrda, Sir Gaerfyrddin  
☎ (01558) 650215  
☎ (01570) 422540

AM EICH HOLL NWYDDAU  
AMAETHYDDOL CYSYLLTWCH Â NI.

Masnachwyr Amaethyddol  
Agricultural Merchants

Am fusnes cyfeillgar, teuluol,  
profiadol yn y byd amaethyddol,  
heb os, i'ch stoc cewch fwydd  
maethlon yn W.D. a sylw prydlon.




**JOHN ANTHONY**  
*a'i Gwmni*

CERFLUNWYR  
COFADEILIAU  
a SEIRI MAEN

*Perch. E. Ja  
N. Gimblett  
(C. Harry gynt)*

24 STRYD FAWR, RHYDAMAN  
☎ (01269) 596227 Nos: 592935

*Cerflunwyr Cofadeiliau yn y lle uchod ers 1920 hefyd yn*  
123 STRYD RHOSMAEN, LLANDEILO  
☎ (01558) 823104



Cysylltwch â Gerwyn Davies yn  
Swyddfa'r NFU Mutual yn Llandeilo  
ar ☎ (01558) 823382

**Am wasanaeth  
lleol o safon  
-  
yswiriant  
pensiynau a  
buddsoddiadau**









# ~ TUDALEN Y PLANT ~

Helo Blant!


Pasg Hapus iawn i chi gyd.  
Mwynhewch yr Wyl ac  
wrth gwrs, mwynhewch yr  
holl siocled. Lliwiwch y llun  
o'r Wy Pasg i'r dde a  
lliwiwch yr olygfa hardd  
isod.



Hwyl  
Elis



## Lliwiwch y llun



Enillydd y mis diwethaf oedd:  
**Cellan Sisto.** Esgair Villa, Abergorlech, Caerfyrddin. (6 oed)

Anfonwch eich cynigion at

Elis, Menter Bro Dinefwr, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo erbyn 18 Ebrill 2012.



## ~ HYSBYSEBION ~

### L.J. BAILEY A'T FEIBION

LLANGADOG (Siop Fwydydd MACE)

*Prisiau cystadleuol*

*Pob math o gig a bacwn o ansawdd da  
Gwasanaeth rhagorol bob amser*

☎ (01550) 777217 [Bwydydd]

☎ (01550) 777242 [Cigydd]



### ALUN DAVIES

**ADEILADWR**

Cilgawod, Caio, Llanwrda, Sir Gâr, SA19 8PG

☎ **01558 650570 [Cartref] / 07974 716211 [Symudol]**  
e-bost: alundavies1@hotmail.com

Ar gyfer pob math o waith adeiladu, cartrefi newydd, atyniadau, estyniadau, adnewyddu ac adfer adeiladau cofrestredig, toeon a simneau, ffenestri a drysau PVC

**Am wasanaeth heb ei ail a chreffftwaith o safon.**

### RED DRAGON ATV'S Y DDRAIG COCH

Ffarmers, Llanwrda

**BEICIAU NEWYDD, TEIARS  
RHANNAU, GWASANAETH**

Dewch ata i gyda'ch Honda ATV  
Ffoniwch Irfon ar (01558) 650740

### GERAINT WILLIAMS

Modurdy Rhosybedw  
Ffaldybrenin

Profion MOT, Batteries,  
Exhausts

☎ (01558)  
**650609**

Gwasanaeth Adfer  
ac Atgyweirio

### D. L. WILLIAMS

Iard Pant-yr-Esgair, Talylychau, Llandeilo

*Masnachwr llechi a phob math o goed*

Bwyd anifeiliaid Bibby

☎ (01558) 685217 (dydd) / 685722 (nos)

### ADEILAD CLADDINGS

(EIRIAN DAVIES)

Y Stordy, Heol yr Orsaf, Llanwrda

☎ (01550) 777497

Zinc sheets a steel girders, arbenigwyr mewn toeon crwn

### CYNLLUNIAU

Ar gyfer Tai Newydd, Estyniadau a Grantiau

### MARTIN WATTS

Architectural Associates Ltd

Maesyreos, Llanwrda, Sir Gâr  
Ffôn: Llangadog (01550) 777591

### A & B Plant & Tool Hire

BRYNDOLAU, FFARMERS

LLANWRDA, SIR GÂR

SA19 8JP

**ARAGOR**

LLUN - GWE 8.00 - 5.30

SAD 8.00 - 1.00

**FFÔN PUMSAINT. 01558 650536**

**FFAC S PUMSAINT. 01558 650516**



### CARPEDI PUMSAINT

Gwasanaeth gosod carpedi  
hen, ail-osod neu newydd

Ffoniwch Alun  
(01558) 650364  
neu 07977 121201

AXMINSTERS, WILTON,  
TWISTS, GWLAN, CORDS,  
CUSHIONFLOOR,  
UNDERLAYS

*"Carpedi i Siwtio Pawb"*

Gellir trefnu ymweliad â'r  
cartref gyda samplau.

### Roger Davies LLOGI PEIRIANNAU

Gwnawn unrhyw waith -  
bach neu fawr

20 mlynedd o brofiad

☎ (01558) 685614  
☎ 07968 838467

Peirianau turio â thraciau 5-15 tonnall.  
Pob math o waith sylfeini, ar gyfer ceffylau, tirlunio  
draeni ac unrhyw waith arall gyda pheirianau  
trymion.

Cwmgolygfa, Rhydcymerau,  
Llandeilo, Sir Gâr, SA19 7RP

### SIOP Y PENTAN

Y dewis gorau o lyfrau  
casetiau a chardiau Cymraeg

Creffftau lleol newydd!

Gwasanaeth Ysgolion

Y FARCHNAD  
CAERFYRDDIN

☎ (01267) 235044

### WILLIAM I. PHILLIPS

DERWENEG, LLANSAWEL

☎ (01558) 685446

Symudol 07836598989

CONTRACTWR CLUDIANT

CYNNYRCH CHWAREL

### NEW ROAD GARAGE

☎ (01550) 720836

Garej Atgyweirio Cyffredinol

Wedi Torri Lawr? Ffoniwch Ni!  
Gwasanaeth Torri Lawr 24 Awr

M.O.T Dosbarth 4

Car Cwrteisi Ar Gael!

### CHECKPOINT



☎ (01558)  
**650338**

*'Tyres, Exhausts a  
Batteries'  
Profion M.O.T*



## ~ CEFN GWLAD ~

### BRIWSION O'R BUARTH

gan Y Lloffwr Bach

Cyn dyfod y tagiau bondigrybwyll roedd gennym enwau pert ar wartheg - enwau fel Seren, Penwen, Hirgorn a Siriol. Cofiw'n hefyd am wlfrech, moelfrech a Geigen a oedd yn eiddo i Ladi Wen Llyn y Fan.

Byddai'n ddiddorol gwybod beth oedd enwau gwartheg Williams Pantycelyn. Fe wyddom taw Braithen, Brochen, Mwynen, Pincken, Starren, Pennant a Cocos oedd enwau'r gwartheg godro ar fferm yr emynyddes Ann Griffiths. Ond, yn unol â thraddodiad, enwau Saesneg oedd i geffylau Dolwar Fach, sef Smiler, Dragon a Blaze.

Mewn pennod hynod ddiddorol yn *Cyfres y Cymoedd: Merthyr a Thaf*, dywed Dr E. Wyn James taw enwau Cymraeg oedd ar ychen hyd nes i geffylau gael eu defnyddio'n gynyddol yn gymysg â nhw yn y wedd. Bryd hynny, trodd eu henwau traddodiadol Cymraeg yn enwau Saesneg crand, fel pe bai ymdrech i godi eu statws cyfuwch ag eiddo'r ceffylau.

Aildaniwyd fy niddordeb yn hyn o beth wrth ddarllen hen rifyn o'r *Faner* (Medi 1895) lle cynigiwyd hanner coron o wobwr am y ddwy restr orau o enwau Cymraeg cymwys i'w rhoddi, y naill ar geffylau a'r llall ar gŵn.

Mewn cyflwyniad i'r gystadleuaeth, cawn ymddiddan dychmygol rhwng John Jones Senior a'i fab John Jones Junior. Mae'r mab yn gofyn i'w dad pam nad yw'n rhoi enwau Cymraeg ar gŵn, yn hytrach na Moss a Carlo a Tango a Jivet. A pham mae'r ceffylau'n cael enwau fel Lester a Boxer?

"Dyw e ddim llawer o bwys pam am wn i," meddai'r tad. "Ceffyl yw ceffyl gan ta beth yw ei enw e."

Fe gafwyd cystadlu brwd; roedd y feirniadaeth yn llenwi bron tudalen gyfan o'r papur ddechrau Hydref. Yn y diwedd, penderfynwyd taw 'Llywelyn' oedd piau'r wobwr. Roedd wedi cyflwyno tua chant o enwau i gyd, ond mae'n anodd gennyf ddychmygu ceffylau ag enwau fel Beiddgar, Heriol, Trechol ac Ymdrech, a go brin y byddai cŵn yn rhy fodlon ag enwau fel Ffyddlon, Gwilydd, Parod, a Rhodydd.

Efallai taw atal y wobwr fuasai ddoethaf.

### Diciau mewn gwartheg: Brechu yn hytrach na difa moch daear

Fe ddaeth y cyhoeddiad gan y Gweinidog Amgylchedd John Griffiths yn y Senedd.

Dywedodd: "Ar ôl ystyried yn ofalus, rwyf wedi penderfynumyndar drywydd prosiect i frechu moch daear.

"Rwyf wedi gofyn i'm Prif Swyddog Milfeddygol i ddylunio prosiect brechu, ei ddechrau yn yr Ardal Triniaeth Ddwys yr haf hwn a'i gynnal am bum mlynedd.

"Rwyf wedi gofyn iddi hefyd ystyried cynnal prosiect brechu mewn ardaloedd eraill lle gallai hynny gyfrannu at ddileu TB. Fy mwriad yw datblygu prosiectau fydd yn sicrhau bod y canlyniadau'n gallu cael eu monitro er mwyn gallu asesu'r effeithiau."

Roedd undebau'r ffermwyr yng Nghymru eisoes wedi rhybuddio'r Llywodraeth y byddai rhoi'r gorau i'r bwriad i ddifa moch daear yn "frad".

Roedd y ffermwyr yn pryderu y byddai John Griffiths yn cefnogi brechu yn hytrach na difa ac y byddai'n gwrthod y syniad o ladd arbrofol mewn ardal yng ngogledd Sir Benfro.

Fe fydd y cyhoeddiad yn cael croeso cynnes gan fudiadau amgylcheddol yn yr ardal a thrwy Gymru, ond mae arweinwyr Undeb Amaethwyr Cymru ac NFU Cymru eisoes wedi rhybuddio y byddan nhw'n siomedig iawn.

Mae'r datganiad yn dod ar ôl arolwg o'r dystiolaeth wyddonol am effeithiolrwydd difa neu frechu moch daear, ond mae'r undebau'n bendant mai dim ond difa sy'n gweithio.



### Diwedd cyfnod yn ardal Soar y Mynydd

Braidd yn anarferol yw galw teulu yn ôl enw'r ffermdy lle maent yn byw, ond dyna oedd hanes teulu **Nantllwyd**, fferm tua deuddeg milltir o Dregaron. Enw ffurfiol y teulu yw Thomas Jones.

Addysgwyd y chwe mab a'r ddwy ferch ar y mynydd wedi i'w tad farnu y byddai symud yn is i lawr yn eu hamddifadu o'u gwreiddiau. Ond fe symudodd y tad y teulu i Fronant gan berswadio'r awdurdodau i anfon athro i gapel Soar y Mynydd gerllaw a sefydlu Ysgol yno ar gyfer eu plant. Roedd y capel ar diroedd Nantllwyd, beth bynnag.

Er bod y cartre'n anghysbell, mae wedi croesawu ymwelwyr o bellter byd a oedd â diddordeb i weld y capel gerllaw. Unwaith croesawyd cyn Arlywydd America, Jimmy Carter. Yno bu'r teulu byw trwy eira mawr 1947 "pan oedd defaid yn rhewi yn y caeau".



Llun: Jeff Charles

#### Teulu Nantllwyd yn 1955

Ond nawr, y mae'r ddau frawd olaf, John a Dafydd Thomas Jones, un yn ei saith degau, a'r llall yn 84 wedi ymadael â'r mynydd. Mae etifedd y fferm o fewn y teulu. Y mae eu nai, Rhys, mab Sianco, un arall o frodyr Nantllwyd yn parhau'r traddodiad. Gwnaeth y ffaith fod y fferm mor anghysbell ddim atal y ddau frawd rhag gweld y byd ac maent wedi mwynhau sawl mordaith.



Wrth iddynt symud o Nantllwyd, daeth terfyn ar genedlaethau o ffermio traddodiadol. Penderfynodd ffrindiau John a Dafydd bod bywyd ar y mynydd yn cael ei gydnabod a threfnwyd cinio iddynt yng Ngwesty'r Talbot, Tregaron.



## M+J TYRES GARAGE SERVICES Ltd

Teiars, Brêcs, Batris, ecsôsts, a gwasanaethu.

Mae John a Mark (ATS-gynt) yn eich gwahoddi i alw mewn!



A476 Ffair-fach i Garmel cyn troad Derwydd

Park Lane, Gelli Aur, SA32 8NW. (01558) 823427

Angen siarad yn gyfrinachol?

## SAMARIAID

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

## Eric Davies GOSODWR TEILS



Gwaith yn cynnwys pob agwedd ar adnewyddu, ceginau, ystafelloedd ymolchi a lloriau.

Derwendeg, Pontargoithi, Caerfyrddin, SA32 7NH

☎ (01267) 290236 ac 07966 542586

~SEFYDLWYD 1797~

## D. LLOYD A'I FEIBION GLANRWYTH, PUMSAINT, LLANWRDA

☎ (01558) 650209 a 650451

Ffacs: 01558 650440

*Masnachwyr coed a nwyddau adeiladu,  
a ffensio o bob math.*

*Glo caled a glo meddal o'r ansawdd gorau.*

## Gwasanaethau Fferm a Busnes Cyffredinol

Dai Dyer B.Sc. Amaeth (Anrh)

Ffôn: 01550 720956 / 07977 913637

Cyfrifon TAW a Chyffredinol

Glastir

Materion Cynllunio Byd Amaeth

Taliadau Sengl (SFP)

Cofnodion Fferm

**Penroc, Heol Llangadog,  
Llanymddyfri, SA20 0DZ**



18 Stryd  
Caerfyrddin,  
Llandeilo  
SA19 6AE

(01558) 823658

22 Stryd y Cerrig,  
Llanymddyfri  
SA20 0JP  
(01550) 720500

**Dr Rhys Ap Delwyn**

**Phillips**

B.D.S., MSc., M.F.G.D.P.

**Dr Aimee Jones**

B.D.S. Caerdydd

**DROS 30 O FLYNYDDOEDD**

**O WASANAETH DEINTYDDOL**

**TEULUOL TRADDODIADOL**

**YN COFRESTRU CLEIFION NEWYDD**

trywydd

Gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol  
am bris cystadleuol

### Gwasanaethau Iaith

- cyfieithu ar y pryd
- cyfieithu ysgrifenedig
- golygu a phrawf-ddarllen

### Gwasanaethau Ymgynghorol

- hyfforddiant
- ymchwil
- rheoli prosiectau

### Llogi Offer

- cyfieithu ar y pryd
- sain a goleuo
- cynadledda

### Trywydd

Y Llwyfan, Heol y Coleg  
Caerfyrddin SA31 3EQ

ffôn 01558 825336  
ffacs 01558 825339

post@trywydd.co.uk  
www.trywydd.co.uk

Un o wasanaethau

Menter Bro Dinefwr





## ~ Y GORLAN GREFYDDOL ~

## Soar y mynydd

Capel y Methodistiaid Calфинаidd, Soar y Mynydd yw un o gapeli enwocaf a mwyaf anghysbell Cymru ac fe saif ar lannau'r afon Camddwr ar yr heol o Lyn Brianne i Dregaron. Fe adeiladwyd y capel tua 1822 gan Ebenezer Richards – gweinidog yn Nhregaron a thad Henry Richard [1812-88] ynghyd â dau ymddiriedolwr arall. Adeiladwyd y capel deulawr hir mewn dull traddodiadol gyda'r pulpud rhwng y ddau ddrws. Tan bedwardegau'r ganrif ddiwethaf defnyddiwyd rhan o'r adeilad fel ysgol leol. Bob haf mae gwibdeithiau o bob rhan o'r wlad yn ymweld â'r capel ac i fynychu'r gwasanaethau. Gwnewch nodyn o'r dyddiadau ac amseroedd yr oedfaon. Gellir cysylltu gyda'r ysgrifennydd: Mrs Elizabeth Hughes, Tregaron ar (01974) 298959 ynglyn â'r trefniadau.



## Rhestr o'r pregethwy'r am 2012

Bydd yr oedfaon yn cychwyn am ddau o'r gloch.


|               |                                   |                       |
|---------------|-----------------------------------|-----------------------|
| Mai 13        | Parch Dafydd Henri Edwards,       | Caerdydd              |
| Mai 20        | Parch Geraint Davies,             | Caerfyrddin           |
| Mai 27        | Parch Goronwy Evans,              | Llanbed               |
| Mehefin 3     | Parch G. Carey Jones,             | Porthyrhyd a San Clêr |
| Mehefin 10    | Donald Glyn Pritchard,            | Llanerchymedd         |
| Mehefin 17    | Dafydd Iwan,                      | Caernarfon            |
| Mehefin 24    | Euros Jones Evans,                | Cwmlllynfell          |
| Gorffennaf 1  | Parch Emlyn Richards,             | Cemaes, Ynys Môn      |
| Gorffennaf 8  | Parch Edwin O. Hughes,            | Drenwydd              |
| Gorffennaf 15 | Parch William Davies,             | Cerrig y Drudion      |
| Gorffennaf 22 | Dr Robin Gwyndaf,                 | Caerdydd              |
| Gorffennaf 29 | Delyth G. Morgan,                 | Bwlchllan             |
| Awst 5        | Parch Meirion Lloyd Davies,       | Pwllheli              |
| Awst 12       | Parch Eifion G. Jones,            | Dinbych               |
| Awst 19       | Dr D. Ben Rees,                   | Lerpwl                |
| Awst 26       | <b>Cyrddau pregethu blynyddol</b> |                       |

Gwasanaethir gan y Parch John Gwilym Jones, Peniel.

Oedfa prynhawn am 2 o'r gloch a'r hwyr am 5 o'r gloch.

|           |                         |              |
|-----------|-------------------------|--------------|
| Medi 2    | Parch Peter Thomas,     | Aberystwyth  |
| Medi 9    | Parch Cen Llwyd,        | Talgarreg    |
| Medi 16   | Parch Gwyndaf Richards, | Llwydiarth   |
| Medi 23   | Parch Stephen Morgan,   | Trefilan     |
| Medi 30   | Parch Emyr Lyn Evans,   | Abergwili    |
| Hydref 7  | Gareth Jones,           | Tregaron     |
| Hydref 14 | Parch Goronwy Wynne,    | Llanymddyfri |

## Rowan Williams i ymddiswyddo



Yn 61 mlwydd oed bydd **Archesgob Caergaint, Dr Rowan Williams** yn rhoi'r gorau i'w swydd ym mis Rhagfyr wedi 10 mlynedd wrth y llyw.

Dr Williams oedd y 104ydd person i ddal y swydd, gan olynuy Dr George Carey. Cynhynnybu'n Archesgob Cymru.

Dywedodd Dr Williams: "Mae wedi bod yn fraint aruthrol i fod yn Archesgob Caergaint, gan fy mod wedi cael mynediad i fywyd eglwysi ledled y byd mewn ffordd unigryw. Ychydig iawn o swyddi sy'n arwain at gynifer o ddrysau agored."

Yn ôl Archesgob Cymru, Dr Barry Morgan:

"Dr Rowan Williams yw'r Archesgob galluocaf a gafodd Caergaint ers canrifoedd, ac fe all mai dim ond ar ôl iddo ymadael y bydd yr Eglwys yn gweld ei wir werth. "Y mae'n Gristion didwyll, yn ŵr gwylaidd a sanctaidd, bob amser yn agos atoch a byth yn rhodresgar. Oherwydd hynny, fe'i hanwylodd ei hun i lawer o bobl. Gweithiodd yn ddiflino dros y degawd diwethaf i gadw'r Cymundeb Anglicanaidd ynghyd, gan gymryd o ddifrif safbwyntiau pobl a oedd yn anghytuno ag ef. Yng Nghymru, wrth gwrs, yr ydym yn eithriadol falch ohono a bu yntau'n llysgennad ardderchog dros ein gwlad."

Cafodd ei eni yn Abertawe yn 1950 a chafodd ei addysg yn Ysgol Uwchradd Dinefwr ynghanol y ddinas. Cafodd gyfnod yng Nghaergrawnt cyn cael ei benodi'n athro yn Rhydychen. Daeth i Gymru yn 1992 i fod yn Esgob Mynwy. Mae gan Dr Williams ddelwedd fel archesgob rhyddfrydol, sy'n fwy na pharod i fynegi'i farn ar bynciau dadleuol. Ers cael ei benodi'n Archesgob Cymru ac Archesgob Caergaint, mae Rowan Williams wedi bod yn barod i ddweud ei ddweud. Cafodd sylw mawr yn y wasg am ei sylwadau ar nifer o bynciau dadleuol.

Fe fydd yn ymgymryd â swydd newydd fel Meistr Coleg Madlen, Prifysgol Caergrawnt.

## Pantfyedwen yw Emyr i Gymru 2012

Mae gwylwyr y gyfres Dechrau Canu Dechrau Canmol ar S4C wedi dewis **Pantfyedwen** fel eu hoff emyn ar gyfer 2012.

Daeth yr emyn i'r brig mewn pleidlais a gynhaliwyd yn ystod mis Chwefror gan y gyfres deledu, ble roedd gofyn i wylwyr bleidleisio am eu hoff emyn o restr fer o ugain oedd wedi eu dewis gan banel o arbenigwyr.

Datgelwyd y canlyniad mewn rhifyn arbennig o Dechrau Canu Dechrau Canmol ar S4C ar nos Sul, 11 Mawrth.

Cafodd y rhaglen ei recordio ym Mhafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid gydag Alwyn Humphreys yn arwain y canu.

"Fe gawsom ni gymanfa ardderchog, gyda cherddorfa a threfniadau arbennig. Roedd digon o hwyl i'w gael nes bod to'r Pafiliwn yn codi," meddai Alwyn.

"Mae Pantfyedwen yn emyn cymharol ddiweddar, ac mae'r geiriau a'r gerddoriaeth wedi cydio mewn ffordd sydd bron iawn yn unigryw i'r blynyddoedd diweddar. Dim ond Pantfyedwen a Bro Aber sydd wedi creu'r fath argraff yn y 50 mlynedd diwethaf.

"Mae cyfuniad o'r dôn a'r geiriau - ac yn enwedig 'Mae'r Haleliwia yn fy enaid i' - yn gwneud i bobl agor allan ac mae'n cynhyrfu pobl. Wedi'r cyfan, 'da' ni gyd yn chwilio am yr Haleliwia yn ein bywydau."

Gwylwch y rhaglen eto ar wasanaeth ar alw S4C – s4c.co.uk/clic



## ~ LLECYN LLÊN ~

### Y Gystadleuaeth

Dyma'r atebion i gystadleuaeth Ionawr/Chwefror.

- 1) Cydnabyddir Kate Roberts (1892-1985) heddiw fel brenhines llên Cymru. Hi oedd awdur clasuron fel 'Y Byw Sy'n Cysgu' a 'Tywyll Heno'. Ro'dd hefyd yn berchen ar Wasg Gee oedd yn cyhoeddi'r cylchgrawn 'Baner ac Amserau Cymru'.
- 2) Cyfres o Awdlau o'r chweched ganrif gan y bardd Aneurin yw 'Y Gododdin', sydd yn coffau brwydrau llwyth Y Gododdin yn yr Hen Ogledd yn erbyn ymosodiadau'r Eingl-sacsoniaid.
- 3) Nofel olaf Charles Dickens, y byddwn yn dathlu deucanmlwyddiant ei eni eleni, oedd *The Mystery of Edwin Drood*, a oedd yn anorffenedig pan fu farw yn 1870.
- 4) Yr emynydd enwog a gysylltir â Llanfynydd yw Morgan Rhys, a oedd yn enedigol o Gil-y-cwm, ac a dreuliodd ran helaeth o'i oes yn athro yn Ysgolion Cylchynol y Parch Gruffydd Jones Llanddowror, gan orffen ei yrfa yn dysgu yn Llanfynydd.
- 5) Awdur y nofel grefyddol *The Pilgrim's Progress* oedd John Bunyan, Cyfansoddodd ran helaeth ohoni pan yn y carchar am gefnogi'r Anghydfurfwr.
- 6) Y Parch Gruffydd Jones, offeiriad Eglwys Llanddowror a gychwynnodd yr Ysgolion Cylchynol a fyddai'n symud o bentref i bentref i ddysgu'r bobl i ddarllen. Cefnogwyd ef yn ariannol gan Bridget Bevan, boneddiges gyfoethog o Dalacharn.
- 7) Awdur y nofel hunangofiannol 'Slawer Dydd' oedd Llywelyn Williams o Frown Hill ger Llangadog. Yr oedd yn fargyfreithiwr, a bu'n Aelod Seneddol dros dref Caerfyrddin o 1906 hyd 1918.
- 8) Y wlad leiaf yn Affrica yw 'Y Gambia'. Mae ynddi boblogaeth o tua hanner miliwn.
- 9) Ceir y parau 'Oberon a Titania' a 'Demetrius a Hermia' yng nghomedi boblogaidd Shakespeare *A Midsummer Night's Dream*.
- 10) Awdur y delyneg sy'n dechrau gyda'r llinellau-  
Pan fwyf yn hen a pharchus  
Ac arian yn fy nghod,-  
oedd Cynan (Albert Jones Evans), enillydd Y Goron yn 1921 a'r Gadair yn 1924.
- 11) George Orwell oedd enw llenyddol awdur y nofelau enwog *Animal Farm* a '1984', ei enw oedd Eric Blair.
- 12) Pan ryddhawyd y llenor D.J. Williams wedi naw mis yng Ngharchar Wormwood Scrubs am weithredu gyda Saunders Lewis a Lewis Valentine ym Mhenyberth, ei sylw cyntaf oedd "Bûm yn gwledda ar ford y brenin".  
Nid oes enillydd y mis hwn am na fentrodd neb o'r ymgeiswyr arferol i'r gystadleuaeth.

### Y Gystadleuaeth Nesaf

- 1) Pwy oedd y ferch gyntaf i ennill prif gystadleuaeth farddonol yr Eisteddfod Genedlaethol?
- 2) Tro Llundain fydd hi i gynnal y Gemau Olympaidd yn 2012. Cynhelir y Gemau nesaf ymhen pedair blynedd yn y flwyddyn 2016, ymha le?
- 3) Beth yw teitl cyfrol hunangofiannol y digrifwr Ifan Gruffydd?
- 4) Dydd dathlu Nawddsant pa un o wledydd Prydain yw 23 Ebrill?
- 5) Pa aderyn a ddygodd ddeilen olewydden i'r arch i brofi i Noah fod y dilyw yn cilio?

- 6) Dyma enwau cartrefi cynnar tri o gewri llenyddol Cymru. Cae'r Gors; Penrhiw; Y Las Ynys. Cartrefi pwy oedd y rhai hyn?
- 7) Beth oedd enw brenin Iwerddon a gyrhaeddodd Harlech a thair llong a'r ddeg, i geisio cael Branwen ferch Llŷr, chwaer Bendigeidfran yn wraig iddo?
- 8) Llenor Saesneg blaenllaw yn y bedwaredd ganrif a'r bymtheg oedd Mary Ann Evans, awdur *Middlemarch*, *The Mill on the Floss* a *Silas Marner*. Ond o dan ba enw y cyhoeddodd ei nofelau enwog?
- 9) Pa emynydd Cymraeg oedd yn ennill ei fywoliaeth drwy wneud rhaffau yng Nghaerfyrddin?
- 10) Yr enw a fabwysiadwyd gan Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru yw Awdurdod Iechyd Betsi Cadwaladr, pwy oedd Betsi Cadwaladr?
- 11) Y Bardd trwm dan bridd tramor, - y dwylo  
Na ddidolir rhagor,  
Y llygaid dwys dan ddwys ddôr,  
Y llygaid na all agor.

Dyma englyn cyntaf cerdd goffa gan. Williams Parry.  
Cerdd Goffa i bwy?

- 12) Am beth y mae'r mynach o'r ddeuddegfed ganrif, Sieffre o Fynwy yn enwog?

Anfonwch eich atebion i **T. M. Thomas**, Tirallen, Llanwrda erbyn 10 Mai.

### CYSTADLEUAETH!

Cyfle i ennill tocyn gwerth £10 i'w wario yn Siop y Cennen! Atebwch y cwestiwn isod a'i anfon at: Menter Bro Dinefwr, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo SA19 6HW neu e-bostiwch eich ateb at: danielthomas@menterbrodinefwr.org cyn 18 Ebrill 2012.

### Pa bryd y cynhelir Gŵyl Lenyddiaeth Dinefwr?

Ateb:.....  
Enw:.....  
Cyfeiriad:.....  
.....

Ateb cystadleuaeth Mawrth: David Owen  
a'r enillydd oedd: **Menna James**, Lluest, Bronwydd, SA33 6JA.

### SIOP Y CENNEN

Uned 4, Byd y Siopwr, Stryd y Gwynt, Rhydaman, SA18 3DN  
LLYFRAU\*CARDIAU\*CREFFTAU\*DISGIAU

*Cyflenwyr Ysgolion a Llyfrgelloedd*

☎ (01269) 595777

✉ hywelbowen@gmail.com ✉ randal\_isaac@hotmail.com



### Argraffwaith Gorau Gwasanaeth Prydlon

Lewis Argraffwyr  
33-35 Heol Awst  
Caerfyrddin  
SA31 3AL

Ffôn: 01267 233510  
www.lewisprinters.co.uk



# CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR 2012

Cynhelir Diwrnod y Llyfr eleni ar 1 Mawrth, ac mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig ar gyfer holl bapurau bro Cymru. **Bydd gwobrau o docynnau llyfrau gwerth £30 yr un ar gael i DRI enillydd lwcus a bydd papurau bro'r tri enillydd yn derbyn sic o £50 yr un.** Felly, dyma gyfle i dderbyn gwobr bersonol a chefnogi'ch papur bro yr un pryd!

## AR DRAWS

- 1 Enw awdur y nofel *Pantglas* (7, 6)
- 7 a 28 ar draws.  
Argraffiad newydd o gerddi Waldo a gyhoeddwyd yn 2010 (4, 4)
- 9 a 29  
Byd o Beryglon: 1. Perygl ar \_\_\_\_\_, nofel gyffrous i ddarlennwyr 9–12 oed (4, 4)
- 10 *Bachgen yn \_\_\_\_\_*, nofel gan Morris Gleitzman (1, 3)
- 12 Enw cyntaf awdur *Hen Blant Bach*, Nofel y Mis Ebrill 2011 (4)
- 13 *Siôn Bach \_\_\_\_\_*, cymeriad yng Nghyfres y Dyn Papur Newydd (5)
- 14 Enw canol awdur y gyfrol o gerddi *Amheus o Angylion* (5)
- 16 *Merch \_\_\_\_\_*, nofel gan Sonia Edwards (4)
- 20 Hanes y cymeriad lliwgar Russell Jones, \_\_\_\_\_ fy *Myd* (5)
- 21 Gweler 22 i lawr
- 24 *Y Dewin \_\_\_\_\_*, stori i blant gan Margaret Davies yn y gyfres *Darllen Stori* (4)
- 26 Enw cyntaf awdur *O Dro i Dro*, casgliad o bedair dawns (5)
- 27 Enw cyntaf cantores enwog, gwrthrych cyfrol gan Ilid Anne Jones (5)
- 28 Gweler 7 ar draws
- 29 Gweler 9 ar draws
- 30 \_\_\_\_\_ *Deuddeg*, cyfrol o hwiangerddi (4)
- 32 Enw cyntaf awdur y gyfrol *Blwyddyn Fan Hyn a Fan Draw* (4)
- 34 Bardd Plant Cymru 2010–2011 (4, 3, 6)

## I LAWR

- 1 Enw llawn Appy, y rheolwr pêl-droed a gyhoeddodd ei hunangofiant yn 2011 (7, 8)
- 2 *Dolenni \_\_\_\_\_*, casgliad o ryddiaith gan Owen Martell (3)
- 3 Cyfrol gan Alan Llwyd – *Sut i Greu \_\_\_\_\_* (5)
- 4 Enw cyntaf arlunydd ac awdur y gyfrol *Mynyddoedd Eryri* (3)
- 5 *Iaith y \_\_\_\_\_* – *Dyfyniadau Ynglŷn â'r Iaith Gymraeg* gan Gwilym Lloyd Edwards (6)
- 6 Hunangofiant Sharon Morgan (5, 3, 7)
- 8 Cyfenw golygydd y gyfrol *Sachaid o Limrigau* (5)
- 11 Cyfrol liwgar o gerddi doniol i blant gan 34 ar draws (3)
- 12 Enw cyntaf un o brif gymeriadau'r gyfrol *Dyddiadur Dripsyn* (4)
- 15 Enw cyntaf awdur y gyfrol ddoniol *Pwy Faga Ddefed?* (4)
- 17 *Theleri \_\_\_\_\_*, hunangofiant 34 ar draws (3)
- 18 *Rhag Pob \_\_\_\_\_* – Cofiant Gwynfor Evans gan Rhys Evans (4)
- 19 Enw cyntaf awdur *Bydoedd – Cofiant Cyfnod*, Llyfr y Flwyddyn 2011 (3)
- 22 a 21 ar draws  
Hunangofiant cantores dalentog o Lanerfyl – rhif 34 yng Nghyfres y Cewri (4, 5)
- 23 Enw cyntaf awdur y gyfrol *Neb Ond Ni* – enillydd y Fedal Ryddiaith 2011 (5)
- 25 Nofel ar gyfer yr arddegau ac oedolion yng Nghyfres y Dderwen gan Lleucu Roberts (6)
- 26 *Rhy \_\_\_\_\_* – Storiâu Byrion gan Bobi Jones (3)

Cofiwch mai un llythyren yw CH, DD, NG, LL, RH, TH

- 28 Pedwaredd nofel Manon Steffan Ros (5)
- 31 Cyfaill Jos yn *Rebels Ceir Rasio* a rhai o gyfrolau eraill cyfres Bechgyn am Byth (3)
- 33 *Traed \_\_\_\_\_*, nofel gan Mari Emlyn (3).

Gall chwilio gwefan [www.gwales.com](http://www.gwales.com) eich helpu gyda'r atebion

**gwales.com**  
llyfrau ar-lein



Cyngor Llyfrau Cymru  
Welsh Books Council

ENW

CYFEIRIAD

ENW'R PAPUR BRO

Y LLOFFWR

Anfonwch y croesair at: Croesair Papur Bro, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB, erbyn 30 Ebrill 2012. Gofalwch nodi eich enw a'ch cyfeiriad ac enw'ch papur bro lleol.

DIWRNOD Y  
**LLYFR**  
1.3.2012

# Dyfodol Sir Gâr

Mae dau ddewis ger eich bron yn Etholiad Mai 3ydd

- 5 mlynedd arall o Annibynwyr a Llafur Meryl Gravell neu
- Dechrau newydd gyda Plaid Cymru

## Mae'r dewis yn eich dwylo chi

Cofiwch bleidleisio ar Fai 3ydd

Ffoniwch 01269 597677 os am bleidlais post



[www.plaidsirgar.org](http://www.plaidsirgar.org)

Plaid Cymru, 37 Heol y Gwynt, Rhydaman, SA18 3DN

**Cymdeithas Alzheimer's** Arwain yr ymgyrch yn erbyn dementia

Does yr un ohonom yn gallu gwneud popeth, ond gall pawb wneud rhywbeth

Mae angen gwirfoddolwyr arnom i helpu gyda'r gwasanaethau lleol. Gwirfoddolwyr i sefydlu grŵp codi arian, ymgyfeillio, a gan fod llawer o wahanol gyfleoedd gwirfoddoli mae yna rhywbeth i bawb

Mae 40,700 o bobl â dementia yng Nghymru ac mae'r ffigwr hwn yn debygol o gynyddu i 43,500 erbyn 2013

Cysylltwch â Gill Morgan – Swyddog Gwirfoddoli ar (01269) 845953 / 07715 802632 neu e-bostio :

[gillian.morgan@alzheimers.org.uk](mailto:gillian.morgan@alzheimers.org.uk)



Elusen gofrestredig rhif 296645

Gwasanaethau diogelach wrth lanhau ffenestri  
*Safer Window Cleaning services*

Cartrefi, lleoedd mân werthu ac adloniant

Prisiau o gyn lleied â £5

Gwasanaeth i'r ardal gyfan

(01267) 345670 / 07773 900777 [www.rclean.co.uk](http://www.rclean.co.uk)



## HYSBYSEBU YN Y LLOFFWR

Mae tua 3,000 o bobl yn darllen Y Lloffwr bob mis, felly os hoffech dynnu sylw at eich busnes gallwch hysbysebu yn y papur am brisau cystadleuol iawn gyda gostyngiad o 50% am hysbyseb blwyddyn (10 rhifyn).

|               | 1 Mis   | 10 Mis  |
|---------------|---------|---------|
| Tudalen gyfan | £144.00 | £720.00 |
| 1/2 Tudalen   | £72.00  | £360.00 |
| 1/4 Tudalen   | £36.00  | £180.00 |
| 1/8 Tudalen   | £18.00  | £90.00  |
| 1/12 Tudalen  | £12.00  | £60.00  |
| 1/24 Tudalen  | £6.00   | £30.00  |

Cyfarchion Personol neu Arbennig £10.00 (1 mis)  
Dosbarthu taflenni/cylchlythyron £72.00 (1 mis)

Gellir trafod anghenion arbennig megis cornel neu waelod tudalen, neu hysbyseb lliw fel bo'r galw. Rhaid talu ymlaen llaw i dderbyn y telerau uchod a rhoddir copi am ddim o'r Lloffwr i bob hysbysebwr. Am fanylion pellach cysylltwch â Wyn Williams, Swyddog Hysbysebion Y Lloffwr ar: (01550) 777834.

## Gwerthwyr Y Lloffwr

|                |                               |
|----------------|-------------------------------|
| Brechfa -      | Siop Gymunedol                |
| Caerfyrddin -  | Garej Tanerdy                 |
|                | Siop t-hwnt cyf               |
|                | Siop Y Pentan                 |
| Crugbybar -    | New Mill Garage               |
| Cwm-du -       | Swyddfa'r Post                |
| Dryslwyn -     | Siop Gymunedol                |
| Felin-wen -    | Siop Premier a gorsaf betrol  |
| Harford -      | Garej Checkpoint              |
| Llanbed -      | Siop Caxton, Sgwâr Harford    |
| Llandeilo -    | Cegin Fach Y Gwili            |
|                | Garej Rhosmaen                |
|                | Siop Co-op                    |
|                | Siop Igam Ogam                |
|                | Siop Price Papers             |
|                | Siop Spar, Heol Newydd        |
| Llanddarog -   | Swyddfa'r Post                |
| Llangadog -    | Siop Bapur                    |
|                | Morgan, Crossville            |
| Llanwrda -     | Swyddfa'r Post                |
| Llanwrtyd -    | Llanwrtyd Wells Auto Services |
| Llanybydder -  | Siop Compton                  |
| Llanymddyfri - | Siop Mace, Heol Newydd        |
|                | Garej Morris Isaac            |
|                | Siop Penlan, Sgwâr y Farchnad |
| Manordeilo -   | Garej                         |
| Porthyrhyd -   | Swyddfa'r Post                |
| Pumsaint -     | Siop W. D. Lewis              |
| Rhandir-mwyn - | Tŷ tê Twm                     |
| Rhydaman -     | Siop Y Cennen                 |



## ~ HYN A'R LLALL ~

**DOCTOR! DOCTOR!****Brechiadau gwyliu**

Fyddwch chi'n treulio gwyliu dramor eleni? Os nad ydych yn siŵr a fyddwch angen brechiadau neu beidio ffoniwch y feddygfa ymlaen llaw gan roi gwybod i ble fyddwch yn teithio. Fe fydd Nyrs y Feddygfa yn cysylltu'n ôl i drafod ac i'ch cynghori. Cysylltwch o leiaf 6 wythnos cyn teithio rhag ofn y bydd arnoch angen cwrs o frechiadau.

**Llinell Gymorth Dementia Cymru**

Mae Gwasanaeth Iechyd Hywel Dda wedi penodi Cydlynnydd Dementia i Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar. Erbyn 2021 rhagwelir bydd y nifer o bobl yn dioddef o ddementia wedi cynyddu i 31% ac i 44% mewn rhai ardaloedd gwledig.

Tammy Morris ydy'r cydlynnydd newydd a'i chyfrifoldeb hi fydd gwella ansawdd bywyd y dioddefwyr a'u gofalgwyr drwy hybu gwell partneriaeth rhwng y gwahanol wasanaethau. Yn ogystal â chydweithio gydag ysbytai a'r gwasanaeth iechyd meddwl bydd Tammy hefyd yn cynorthwyo gyda darpariaeth cartrefi addas, y sector wirfoddol a'r gymuned yn ehangach.

Cysylltwch â rhad ffôn 0808 2235 neu tecstiwch HELP gyda'r manylion rydych eu hangen i 81066.

**Gartref o'r Ysbyty**

Bob blwyddyn bydd nifer fawr o gleifion yn gorfod dychwelyd i'r ysbyty o achos problemau gyda'u meddyginiaeth. Mae gwasanaeth ar gael drwy eich fferyllfa i wneud yn siŵr bod eich moddion a'ch tabledi yn rhai cywir ar gyfer eich cyflwr.

Yn union ar ôl cyrraedd adref o'r ysbyty rhwch wybod i'ch fferylllydd drwy alwad ffôn naill ai gennych chi, eich gofalwr, perthynas neu ffrind. Bydd angen i'r fferylllydd gael y llythyr a gawsoch chi wrth adael yr ysbyty.

Wedyn bydd y fferyllfa yn gwneud yn siŵr bod y meddyginiaethau cywir gennych, ac yn rhoi gwybod os nad oes angen i chi barhau i gymryd meddyginiaethau blaenorol. Bydd eich fferylllydd yn gallu egluro pwrpas y feddyginiaeth newydd, yr effaith ar y cyflwr a sut i gael y canlyniadau gorau. Bydd hefyd yn cydweithio gyda'ch meddyg i sicrhau bod presgripsiwn yn gywir ac i drefnu i'ch gweld yn nes ymlaen i wneud yn siŵr bod y presgripsiwn yn parhau i wneud yr hyn a ddylai yn ddiogel.

**Gwasanaeth Cwnsela Macmillan/Relate**

Gall y gofid o gael rhywun agos yn dioddef o gancr achosi pob math o anawsterau emosiynol mewn teuluoedd a rhwng partneriaid. Os oes rhywun annwyl yn dioddef o'r clefyd yn eich teulu chi mae gwasanaeth cwnsela ar gael yn rhad ac am ddim ar gyfer cyplau, teuluoedd a phobl ifainc. Cynigir y gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn Abertawe ac mae sesiynau Saesneg ar gael yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Hwlfordd. Am fwy o fanylion cysylltwch ag (01792) 454412 neu drwy e-bost [enquiries.macmillan@relate](mailto:enquiries.macmillan@relate) [cgm.org.uk](mailto:enquiries.macmillan@relate) neu drwy lythyr i Relate Cymru, 47 Heol Walter, Abertawe SA1 5PW

**Gŵyl Lenyddiaeth Dinefwr 2012**

Bydd Llenyddiaeth Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Coracle yn cynnal Gŵyl Lenyddiaeth ym Mharc a Chastell Dinefwr ger Llandeilo ar benwythnos 29 Mehefin, 30 Mehefin a 1 Gorffennaf eleni.

Fel mae enw'r ŵyl yn ei awgrymu, llenyddiaeth fydd ei chanolbwynt. Bydd y llenorion gorau o Gymru a thu hwnt yno. Bydd rhaglen yr ŵyl hefyd yn cynnwys cerddoriaeth gyfoes, comediwyr enwog a llawer o weithgareddau i blant. Bydd yno hefyd stondinau bywyd blasus a gweithgareddau awyr agored.

Dyma ambell enw sydd wedi eu cadarnhau hyd yn hyn: Howard Marks, Gruff Rhys, sioe *The Science of Dr Who*, criw Dal dy Dafod, Eurig Salisbury – Bardd Plant Cymru, Cowbois Rhos Botwnnog, *Emmy The Great*, Gillian Clarke – Bardd Cenedlaethol Cymru, Ceri Wyn Jones, Daniel Glyn, Catherine Fisher – Awdur Llawryfog Pobl Ifainc Cymru, Heledd Cynwal, Steve Eaves, Fflur Dafydd a llawer llawer mwy.

Am gyfnod, gallwn gynnig tocynnau cyntaf i'r felin i chi am £45 a fydd yn rhoi mynediad i bob digwyddiad dros benwythnos yr ŵyl. Mae tocynnau cyntaf i'r felin i blant 5-16 hefyd i'w cael am £5, a chaiff blant dan 5 oed fynd i mewn am ddim (ond rhaid cael tocyn ar eu cyfer). Bydd tocyn gwerau ar gael am £20 y babell (i ddal hyd at bedwar person).

Mae'r tocynnau cyntaf i'r felin yn gyfyngedig, felly brysiwch cyn i'r pris godi! Gallwch ffonio Ticketline ar 08444 888 9991 neu ewch i'r wefan <http://www.gwylenyddiaethdinefwr.co.uk> am fwy o wybodaeth.

Hefyd mae angen gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda holl drefniadau ymarferol y penwythnos. Cadwch lygad ar y wefan lle mae gwybodaeth am wirfoddoli ar gael.

**Côr Meibion De Cymru - Y Gân**

Y mae'r côr yn eich gwahodd i ymuno yn Y Gân ar Sul, 15 Ebrill. Medrwy ymuno neu wrando ar y côr yn ymarfer yn Neuadd Ddinesig Llandeilo o 12.30pm tan 4pm.

Daw aelodau'r Côr o bob rhan o dde Cymru a thu hwnt. Maent yn cwrdd yn wythnosol yn bum grŵp, pob un â'i arweinydd ei hun a chyfeilydd. Mae'r grŵp lleol yn cyfarfod i ymarfer bob nos Wener yn Ffair-fach. Rhif ffôn y cadeirydd Phil Merrett yw (01239) 810234 neu'r ysgrifennydd cyffredinol John Rees Davies yw (01446) 746387.

Os ydych yn berchen ar lais canu dyma'r tocyn i deithio ym Mhrydain a thramor. Cyngherddau mewn gwahanol leoliadau a thaith dramor bob yn ail flwyddyn.

**Taith Y Ffagl Olympaidd o amgylch ysgolion y sir**

Bu'r Ffagl Olympaidd a gynlluniwyd yn arbennig ar siâp cenhinen Bedr yn teithio o amgylch ysgolion Sir Gaerfyrddin yn ystod mis Mawrth.

Roedd timau datblygu chwaraeon y sir wedi trefnu taith y ffagl am bedair wythnos tan 28 Mawrth ar draws bron 200 o filltiroedd rhwng 16 o ysgolion a bu dros 12,000 o ddisgyblion o ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig ar draws y sir yn gysylltiedig â hyn.

Gan gychwyn yn Ysgol Emlyn ar 27 Chwefror a gorffen Yn Ysgol Pantycelyn ar 26 Mawrth, treuliodd y ffagl o leiaf ddiwrnod ym mhob un o ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig y sir.

Roedd pob rhan o'r daith yn cael ei chwblhau ar droed heblaw am daith mewn caia ac afon Tywi.

Bu'r holl ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn cynllunio eu rhaglen eu hunain o weithgareddau, gwerau ar sail thema, digwyddiadau a chystadlaethau i ysbrydoli pobl ifanc i ymwneud â'r Gêmau Olympaidd mewn rhyw fodd. Ysbrydolwyd y prosiect gan ymweliad arfaethedig y Fflam Olympaidd swyddogol a fydd yn dod i Sir Gaerfyrddin ar 27 Mai ar ei ffordd o Abertawe i Aberystwyth, gan deithio trwy Lanelli, Cydweli a Chaerfyrddin.







## ~ ADRAN YR YSGOLION ~

### CYLCH MEITHRIN FFAIR-FACH



Dyma rai o blant y cylch gyda'u daffodil. Fe'u plannwyd nôl ym mis Tachwedd ar gyfer codi arian tuag at Marie Curie. Erbyn mis Chwefror â'r plant wedi gofalu amdanynt maen nhw yn awr yn mynd â nhw adref, wedi casglu £159.



*Plant Cylch Meithrin Ffair-fach yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi.*

Llun: Mark Davies

Mae Mudiad Meithrin yn hynod falch o gyflwyno i Glych Meithrin Ffair-fach sêl Y Cylch Rhagorol sef tystysgrif sy'n cydnabod rhagoriaeth ym myd gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector gwirfoddol.

Ar fore dydd Mawrth 13 Mawrth daeth rhieni i mewn i'r Cylch am gwpanaid a theisen ar gyfer codi arian tuag at Pobi Dros Bobath: Canolfan Therapi Plant Cymru sy'n helpu plant sydd â pharlys yr ymennydd. Casglwyd £53.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth.



### YSGOL GYNRADD LLANGADOG

Y tymor yma rydym wedi bod yn cystadlu yn Eisteddfodau Cylch a Rhanbarthol yr Urdd. Braf yw dweud bod yr ysgol wedi bod yn llwyddiannus a bydd crysau gwyrdd Ysgol Llangadog i'w gweld yn Eryri. Diolch yn fawr i'r plant am eu parodrwydd i ymarfer yn gyson, yr athrawon am ein paratoi a'r rhieni am eu cefnogaeth.

Y tymor hwn mae gwaith wedi ail ddechrau yn yr ardd gyda Miss Lucie Scott yn arwain y ffordd. Mae tŷ gwydr a gwelyau newydd wedi eu gosod ac mae'r hadau bach yn barod am y flwyddyn o'u blaenau.

Llongyfarchiadau i'r Clwb Brecwast am ennill gwobr aur.

Cawsom wahoddiad i ddiddanu henoed yr ardal yn Neuadd Llangadog.



Diolch iddynt am eu gwrandawriad a'u sylwadau caredig, ac am y lluniaeth.

Er mwyn codi arian tuag at Sport Relief bydd pob dosbarth yn cyflawni rhyw elfen o dreithlon ar ddydd Gwener, 23 Mawrth. Yn olaf mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon wedi trefnu noson bingo i'w chynnal yn y Clwb Rygbi ar nos Wener, 30 Mawrth.

*Aelodau'r Cyngor Ysgol*

### YSGOL GYNRADD CAIO

Bu'r plant yn ymweld â Ffatri Wlân Drefach Felindre fel rhan o'u gwaith prosiect "O'r ddafad i'r dilledyn".

Gwelwyd sut oedd gwlan yn cael ei gynhyrchu wrth iddynt nyddu a gwyllo'r peiriannau yn mynd trwy'r gwahanol brosesau. Buont yn gwneud darn o waith celf a chrefft gyda'r gwlan hefyd sef ffeltio.

Ymweliad pleserus iawn a fwynhawyd gan bawb.



Cam nesaf o'r broses fydd ymweld â fferm lle mae'r ŵyn bach yn cael ei geni.

Ar ddydd Gwener, 16 Mawrth aethom lawr i Ganolfan Chwaraeon Trimsaran i dderbyn deilen y drydedd cam yng nghynllun Ysgolion Iach. Cawsom hefyd wobwr i ddangos ein hymroddiad i Gynllun Gwên y Sir sef cynllun gofalu ar ôl ein dannedd (llun chwith). Da iawn, wir!



## ~ ADRAN YR YSGOLION ~

### YSGOL GYNRADD CWRT HENRI

Llongyfarchiadau gwresog i blant dawnus Ysgol Gynradd Cwrt Henri ar ennill y darian i'r ysgol gynradd hyd at 50 o blant a gafodd y mwyaf o bwyntiau yn Eisteddfod Gylch yr Urdd.



Lowri Daniels, Cerys Thomas a Tomos Rees

### YSGOL GYNRADD BRECHFA

Brysiwch wella Miss Davies – dymuniadau gorau gan bawb ym Mrechfa!

Daeth llwyddiant i'n rhan y tymor yma eto. Cawsom wobrau lu yn y cystadlaethau celf a chreffft gyda 10 eitem yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Rhanbarth. Bu'r plant yn brysur ar y llwyfan hefyd gyda'r grŵp dawnio disgo, parti unsain, yr ymgom a chystadlaethau unigol. Daeth Lucas Palenek yn ail wrth ganu unawd Blwyddyn 2 ac iau. Mae'r grŵp records hefyd yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Rhanbarth. Da iawn wir!

Cafodd y ddau dîm Cwis Llyfrau Cymraeg ganmoliaeth am eu gwaith gyda thîm Blwyddyn 5 a 6 yn mynd ymlaen i'r ail rownd ym mis Mai. Gwych!

Bu'r plant yn canu yng Nghaerfyrddin ar Ddydd Gŵyl Dewi ac yna yn ôl i'r ysgol ar gyfer gweithgareddau Diwrnod y Llyfr.



### YSGOL YR EGLWYS LLANFYNYDD

#### Ymweliad

Cafodd y disgyblion amser da yn plannu coed afalau ym mharc Dinefwr ac yn dysgu sut i ofalu am yr amgylchedd mewn ffordd gynladwy. Cafwyd cyfle i weld y systemau sydd ar waith yn y parc a gweld y gwartheg gwyn prin. Yna aethpwyd ymlaen i siop y Cooperative lleol i ddysgu am nwyddau Masnach Deg. Cafwyd cyfle i holi a blasu rhai o'r danteithion Masnach Deg mae'r siop yn eu gwerthu.



#### Bore Coffi

Cynhaliwyd bore coffi Masnach Deg yn yr ysgol pan ddaeth nifer o drigolion y pentref i gyfarfod a'r plant a mwynhau paned a sgwrs. Gwerthwyd llawer o nwyddau masnach deg ar ran Cymorth Cristnogol yn ystod y digwyddiad. Diolch am bob cefnogaeth.

#### Gŵyl Dewi

Bu'r plant yn dathlu Gŵyl Dewi yn eu gwisgoedd traddodiadol, yn paratoi pice ar y maen ac yn cystadlu mewn eisteddfod fach yn yr ysgol.



#### Diwrnod y Llyfr

Unwaith eto eleni bu'r plant yn dathlu'r diwrnod yma drwy wisgo fel eu hoff gymeriad llyfr. Cafwyd llawer o hwyl yn byw'r cymeriadau am y dydd.

#### Urdd

Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gystadlu mewn canu, llefaru, celf a chreffft yn eisteddfod gylch yr Urdd. Llongyfarchiadau arbennig i Elin Worsley, Blwyddyn 5 a ddaeth yn gyntaf yng nghystadlaeth Coginio 'Cogurdd' ardal Dwyrair Myrddin. Bu Elin yn paratoi salad ffrwythau, smwddis a chacennau bach. Pob lwc yn y rownd nesaf pan fydd hi'n coginio o flaen Dudley Newbury yng Ngholeg Pibwrlwyd!

**mae gen ti ddewis...** i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg





## ~ DATHLIADAU DYDD GŴYL DEWI YM MRO DINEFWR ~



**YSGOL GYMRAEG TEILO  
SANT, LLANDEILO**  
Disgyblion Blwyddyn 4

**CYLCH MEITHRIN FFAIR-FACH**  
Plant Cylch Meithrin Ffai-fach yn dathlu  
Dydd Gŵyl Dewi.



**YSGOL GYNRADD TALYLLYCHAU**  
Dyma disgyblion Ysgol Talyllychau yn  
dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn eu gwisgoedd  
Cymreig. Cafodd y plant gawl a pice ar y  
maen i ginio.

**CYLCH MEITHRIN  
LLANGADOG**  
Mwynhau'r gwisgo a'r  
cynnwrf.

